

# Pecyn Cyhoeddus



Cyngor Sir  
**CEREDIGION**  
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,  
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA  
[ceredigion.gov.uk](http://ceredigion.gov.uk)

## Annwyl Syr / Fadam

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol, o bell trwy fideo-gynhadledda, Dydd Iau, 14 Hydref 2021 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

1. Ymddiheuriadau
2. Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswilt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.
3. Is-grwp Tlodi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion - adroddiad cynydd Strategaeth Mynd i'r Afael a Chaledi (Tudalennau 3 - 36)
4. Siarad, Gwrando a Gweithio gyda'n Gilydd - fersiwn ddrafft y Polisi Ymgysylltu (Tudalennau 37 - 80) – y blaenadroddiad yn unig sydd yn y Gymraeg ar hyn o bryd
5. Diweddariad ar y Gwasanaeth CLIC (Tudalennau 81 - 88)
6. Adroddiad Safonau Llyfrgelloedd (Tudalennau 89 - 102)
7. Adroddiad ar Ystadegau 2020 Uwch Grwner Ceredigion (Tudalennau 103 - 116)
8. Blaenraglen Waith (Tudalennau 117 - 120)
9. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion. (Tudalennau 121 - 124)

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**



**Miss Lowri Edwards**

**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Adnoddau Corfforaethol  
Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

## Cyngor Sir CEREDIGION

**ADRODDIAD I'R:** Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol

**DYDDIAD:** 14 Hydref 2021

**LLEOLIAD:** Rhithiol

**TEITL:** Is-grŵp Tlodi Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion –  
adroddiad cynnydd Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi  
Gorffennaf 2021

**DIBEN YR  
ADRODDIAD:** Cyflwyno adroddiad cynnydd y Strategaeth Mynd i'r Afael â  
Chaledi

**Y RHESWM PAM** Er mwyn craffu ar waith ac effaith y camau a gymerwyd gan y  
**FOD Y PWYLLGOR** Cyngor a phartneriaid mewn perthynas â mynd i'r afael â chaledi  
**CRAFFU WEDI** yng Ngheredigion

**GOFYN AM Y  
WYBODAETH:**

### CEFNDIR:

Mae Adran 2 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau Cymru i baratoi a chyhoeddi strategaeth a fydd yn cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru. Gall Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyhoeddi eu strategaeth fel rhan annatod o'u Cynllun Llesiant Lleol. Fodd bynnag, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion wedi dewis cyhoeddi strategaeth ar wahân er mwyn cadw ffocws penodol ar faterion sy'n ymwneud â thlodi yng Ngheredigion.

## Y SEFYLLFA BRESENNOL:

Cyhoeddwyd Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2020-22 ym mis Awst 2020 fel olynnydd i Strategaeth Brwydro yn erbyn Tlodi Ceredigion 2016-20. Mae gan y Strategaeth dri amcan allweddol ac mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys 65 o gamau gweithredu a gyflawnir gan amrywiaeth o bartneriaid y BGC.

Caiff y Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi ei monitro gan Is-grŵp Tlodi BGC Ceredigion, sy'n cwrdd bedair gwaith y flwyddyn. Mae'r adroddiad cysylltiedig yn dangos cynnydd o ran cyflawni'r strategaeth a'r camau nesaf arfaethedig, mae'r rhain wedi'u isod:

1. Bydd Is-grŵp Tlodi'r BGC yn parhau i ddatblygu'r dangosfyrddau data i sicrhau bod gennym ddealltwriaeth gyffredin o effaith esblygol COVID-19 ar galedi yng Ngheredigion drwy gasglu a dadansoddi data.
2. Mae angen adolygu'r rhestr o bartneriaid sy'n cyfrannu (gweler Atodiad B). Rydym yn gwybod bod cyfleoedd i gydweithio â mwy o asiantaethau partner er mwyn hyrwyddo a manteisio ar yr holl gymorth sydd ar gael.
3. Mae'r Cynllun Gweithredu yn ddogfen fyw sydd wedi'i chynllunio i gael ei diweddu yn ystod oes y Strategaeth Caledi. Mae rhai partneriaid sy'n cyfrannu wedi cwblhau eu camau gweithredu tra bod camau gweithredu eraill yn dal i fynd rhagddynt. Bydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei adolygu i sicrhau ein bod yn parhau i gydweithio'n effeithiol i gryfhau cydherthedd unigolion a chymunedau wrth i ni addasu i effaith COVID-19.
4. Nid yw'r fframwaith a sefydlwyd i fonitro'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Caledi yn cynnwys modd i bartneriaid dynnu sylw at faterion penodol sy'n peri pryer. Yn benodol, y rheini y mae'n bosibl y gall y BGC fynd i'r afael â hwy'n effeithiol ar sail amlasiantaethol. Bydd y fframwaith monitro yn cael ei addasu er mwyn iddo gynnwys ffordd glir o nodi materion penodol sy'n peri pryer y gall darparwyr cymorth, dinasyddion ac aelodau Is-grŵp y BGC eu codi.

### A oes Asesiad Effaith Integredig Oes wedi'i gwblhau? Os na, nodwch pam

LLESIANT  
CENEDLAETHAU'R  
DYFODOL:

*Crynodeb:*  
**Hirdymor:**

Mae'r Strategaeth yn mynd i'r afael â'r tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir. Amlinellir effeithiau uniongyrchol a hirdymor ar galedi yn y Strategaeth.

<b>Integreiddio:</b>	Mae'r Strategaeth yn ategu'r Strategaeth Adferiad Economaidd Lleol a Chydnerthedd. Bydd y Strategaeth hefyd yn gwneud cyfraniad allweddol i Gynlluniau Cam 3: Addasu a Chydnerthedd Hirdymor y Cyngor mewn perthynas â phandemig y coronafeirws.
	Mae'r Strategaeth hefyd yn cysylltu â Strategaeth Gorfforaethol Cyngor Sir Ceredigion, Cynllun Llesiant Lleol BGC Ceredigion, Ceredigion Deg a Chyfartal 2020-24, (Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Ceredigion), a Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol Deddf Cydraddoldeb 2010.
<b>Cydweithio:</b>	Mae cydweithio yn rhan allweddol o'r Strategaeth. Adolygwyd aelodaeth Is-grŵp Tlodi'r BGC, gan arwain at fwy o weithio gyda'r Trydydd Sector.
<b>Cynnwys:</b>	Gwnaethom ymgysylltu â 23 o sefydliadau a derbyn data caledi ganddynt. Mae'r data hwn wedi helpu i ddarparu'r sylfaen dystiolaeth leol i lunio'r Strategaeth hon. Mae ymgysylltu parhaus yn cael ei brif ffrydio drwy gyflawni'r Cynllun Gweithredu.
<b>Atal:</b>	Mae enghreifftiau o waith ataliol wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi. Mae'r Strategaeth hefyd yn ceisio ysgogi a chyfeirio at adnoddau a ffrydiau ariannu.

## ARGYMHILLIAD:

Bod y pwylgor Craffu'n cydnabod y cynnydd a wnaed o ran cyflawni tri amcan allweddol Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi Ceredigion ac yn cefnogi'r 'camau nesaf' a ddangosir uchod.

## Y RHESWM DROS YR ARGYMHILLIAD:

Mae cynnydd da yn cael ei wneud ond mae angen cymryd camau pellach er mwyn cynyddu effeithiolrwydd y Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig.

**Enw Cyswilt:**

Cathryn Morgan

**Swydd:**

Cydlynydd Teuluoedd yn Gyntaf a Ffoaduriaid

**Dyddiad yr Adroddiad:**

21/09/2021

**Acronymau:**

# Tudalen 6



**STRATEGIAETH MYND I'R AFAEL Â  
CHALEDI CEREDIGION 2020 - 2022**

**ADRODDIAD CYNNYDD GORFFENNAF  
2021**

## Cynnwys

	Tudalen
Cyflwyniad	3
Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010	4
<u>Cynllun Gweithredu Mynd i'r Afael â Chaledi</u>	
Colofn 1 – Costau Byw Hanfodol	5
Colofn 2 – Lles Corfforol ac Emosiynol	6
Colofn 3 – Cydnerthedd Cymunedol	7
Yr hyn y mae'r data yn ei ddweud wrthym	8
Y Camau Nesaf	10
Atodiad A: Adroddiadau manwl ar y Cynllun Gweithredu	11
Atodiad B: Partneriaid sy'n Cyfrannu	29

## Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r camau a gymerwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion i ddarparu ymateb cydgysylltiedig i'r risg gynyddol o galedi yng Ngheredigion oherwydd effaith Covid-19. Mae'n amlinellu'r gwaith y mae partneriaid a chydweithwyr wedi'i gyflawni hyd yma i sicrhau cymaint o gymorth â phosibl i dalu costau byw hanfodol, sicrhau bod llesiant corfforol ac emosiynol pobl cystal ag y gall fod, a sicrhau cymunedau cefnogol a chysylltiedig ledled Ceredigion.

Cyhoeddwyd Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi 2020-22 ym mis Awst 2020 fel olynnydd i Strategaeth Brwydro yn erbyn Tlodi Ceredigion 2016-20. Mae gan y Strategaeth dri amcan allweddol ac mae'r Cynllun Gweithredu yn cynnwys 65 o gamau gweithredu a gyflawnir gan amrywiaeth o bartneriaid y BGC.

Tri amcan allweddol:

- Ar y cyd ag asiantaethau sy'n bartneriaid, **dod i ddeall** effaith esblygol COVID-19 ar galedi yng Ngheredigion, a hynny drwy goladu a dadansoddi data.
- Cydlynu ac **atgyfnerthu gwaith ar y cyd** ag asiantaethau partner i hyrwyddo a manteisio ar yr holl gymorth sydd ar gael.
- **Nodi bylchau** o ran y cymorth sydd ar gael ac o ran anghenion caledi wrth iddynt newid er mwyn llunio ymyriadau cynnar effeithiol a fydd yn sicrhau bod unigolion a chymunedau'n fwy cydnerth wrth inni ddygymod ag effaith COVID-19.

Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i rannu'n 3 colofn ar wahân i'w gweithredu:



Hoffem gydnabod yr ymrwymiad a'r gefnogaeth y mae cydweithwyr a phartneriaid wedi'u dangos, a hoffem ddiolch iddynt am barhau i gydnabod pwysigrwydd cydweithio er mwyn mynd i'r afael â chaledi yng Ngheredigion.

## Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

Mae Adran 2 Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 yn gosod dyletswydd statudol ar awdurdodau Cymru i baratoi a chyhoeddi strategaeth a fydd yn cyfrannu at ddileu tlodi plant yng Nghymru. Y nodau cyffredinol ar gyfer cyfrannu at ddileu tlodi yw:

- cynyddu incwm i aelwydydd sy'n cynnwys plant;
- sicrhau nad yw plant wedi'u hamddfadiad'n sylweddol;
- hybu a hwyluso cyflogaeth am dâl i rieni plant;
- darparu'r sgiliau angenrheidiol i rieni plant ar gyfer cyflogaeth â thâl;
- lleihau anghydraddoldebau mewn cyrhaeddiad addysgol rhwng plant;
- cefnogi rhianta plant;
- lleihau anghydraddoldebau mewn iechyd rhwng plant a rhwng rhieni plant;
- sicrhau bod pob plentyn yn tyfu mewn tai gweddus;
- sicrhau bod pob plentyn yn tyfu mewn cymunedau diogel a chydlynus;
- lleihau anghydraddoldebau wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol, gweithgareddau chwaraeon a hamdden rhwng plant a rhwng rhieni plant;
- cynorthwo pobl ifanc i gymryd rhan yn effeithiol mewn addysg a hyfforddiant;
- cynorthwo pobl ifanc i fanteisio ar gyfleoedd i gael cyflogaeth;
- cynorthwo pobl ifanc i gymryd rhan yn effeithiol ac yn gyfrifol ym mywyd eu cymunedau.

Gall Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gyhoeddi eu strategaeth fel rhan annatod o'u Cynllun Llesiant Lleol. Fodd bynnag, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ceredigion wedi dewis cyhoeddi strategaeth ar wahân er mwyn cadw ffocws penodol ar faterion sy'n ymwneud â tlodi yng Ngheredigion.

Caiff y Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi ei monitro gan Is-grŵp Tlodi BGC Ceredigion, sy'n cwrdd bedair gwaith y flwyddyn. Craffir ar bob 'Colofn' o'r Cynllun Gweithredu ar wahân ar raglen dreigl yn ystod y flwyddyn. Adroddwyd ar golofn 1 i'r Is-grŵp Tlodi a gynhalwyd ar 22/01/2021, adroddwyd ar golofn 2 ar 23/04/2021 a cholofn 3 ar 23/07/2021. Caiff adroddiadau gan bob partner eu coladu cyn pob cyfarfod (gweler Atodiad A). Dangosir pwyntiau allweddol o'r adroddiadau hyn yn y ffeithluniau isod.

Mae'r Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc, sy'n cwrdd wythnos cyn Is-grŵp Tlodi'r BGC, yn craffu ar faterion sy'n ymwneud â Thlodi Plant er mwyn i faterion allu cael eu huwchgyfeirio ar unwaith.

# Cynnydd y Cynllun Gweithredu: Colofn 1

## Cymorth gyda Chostau Byw Hanfodol

Crynodeb o'r adroddiad i is-grŵp Tlodi'r BGC Ionawr 2021

	Cymerwyd <b>17</b> diwrnod ar gyfartaledd i brosesu ceisiadau newydd am Fudd-dal Tai a Chynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor.		Cafodd <b>98</b> o bobl gymorth gan Cymdeithas Gofal i gael mynediad at lety dros dro.
	Nododd <b>129</b> (14%) o geisiadau newydd ar gyfer y Gofrestr Tai resymau ariannol fel maes sy'n peri pryder.		Cynnydd o <b>63%</b> yn nifer yr hawlwyr Prydau Ysgol Am Ddim sy'n derbyn taleb neu daliad o £19.50 yr wythnos pan fydd ysgolion ar gau.
	Talwyd <b>£356,593</b> mewn Taliadau Disgresiwn at Gostau Tai (100% o ddyraniad 2020/21 ynghyd â £9,000 o gronfeydd wrth gefn y Cyngor).		Anfonwyd <b>4,400</b> o lythyrau at aelwydydd wedi'u targedu gyda gwybodaeth am gynlluniau sy'n mynd i'r afael â tlodi tanwydd i leihau biliau cartrefi.
	Gwnaed <b>953</b> o geisiadau i'r Gofrestr Tai a chefnogwyd <b>218</b> o denantiaethau newydd.		Derbyniodd <b>30</b> o grwpiau cymunedol becynnau hylendid menywod i'w dosbarthu i'r rhai mewn angen.
	Mae asesiadau <b>Prydau Ysgol am Ddim</b> bellach yn cael eu gwneud ochr yn ochr ag asesiadau ar gyfer Budd-dal Tai a Gostyngiad Treth y Cyngor i symleiddio'r broses ar gyfer rhieni/gofalwyr.		Sefydlwyd <b>5</b> canolfan cyngor allgymorth cymunedol newydd gan Gyngor ar Bopeth ledled Ceredigion a reciriwtwyd <b>10</b> gwirfoddolwr newydd

## Cynnydd y Cynllun Gweithredu: Colofn 2

### Lles Corfforol ac Emosiynol

Crynodeb o'r adroddiad i is-grŵp Tlodi'r BGC Ebrill 2021

	Dosbarthwyd <b>20,437</b> o barseli bwyd a phecynnau lles gan wasanaethau ymyrraeth gynnar yn y 3ydd sector a'r Cyngor		Mae <b>1,068</b> o Ofalwyr di-dâl bellach wedi'u cofrestru gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr. Mae <b>56</b> o ofalwyr wedi elwa o <b>1,053</b> awr o seibiant.
	Cofrestrodd <b>64</b> o bobl ifanc ar gyfer cwnsela gydag Area 43 (a ariennir gan Fwrdd Iechyd Hywel Dda)		Llenwyd mwy na <b>750</b> o fagiau o sbwriel yn ystod gweithgareddau casglu sbwriel ar ymyl y ffordd ym mis Mawrth 2021
	Darparwyd Cymorth Llythrennedd Emosiynol i staff ysgolion a darparwyd amrywiaeth o adnoddau lles i ddisgyblion a staff yr ysgol.		Cafodd <b>25</b> o blant a phobl ifanc anabl â'r anghenion mwyaf cymhleth amser gyda gweithiwr cymorth DASH, gan ddarparu seibiant i <b>19</b> o deuluoedd.
	Cefnogwyd <b>583</b> o gleientiaid y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff gyda <b>29,986</b> o alwadau lles.		Derbyniodd <b>600</b> o blant, pobl ifanc a'u teuluoedd alwadau lles gan wasanaeth Cymorth ac Atal y Cyngor.
	Recriwtwyd <b>7</b> gweithiwr cymdeithasol cynorthwyl i gefnogi gyda gwaith Rhyddhau i Adfer ac Atal Rhag Mynd i'r Ysbyty		Datblygodd Theatr Felinfach Iwyfan digidol cyfrwng Cymraeg yn cynnig gweithgareddau creadigol i blant a phobl ifanc a allai fod yn teimlo'n unig ac yn ynysig.

## Cynnydd y Cynllun Gweithredu: Colofn 3

### Cydnerthedd Cymunedol – mynediad at wasanaethau


#### Crynodeb o'r adroddiad i is-grŵp Tlodi'r BGC Gorffennaf 2021

	Mae dros <b>1,600</b> o wasanaethau sy'n canolbwytio ar Geredigion bellach wedi'u cofrestru ar wefan Dewis Cymru.		Roedd <b>584</b> o bobl wedi ymuno â grŵp 'Cysylltu â Charedigrwydd' Ceredigion ar y cyfryngau cymdeithasol.
	Mae <b>3</b> cymuned (Llandysul, y Borth a Phenparcau) yn gweithio gyda CAVO ar brosiectau cydnerthedd cymunedol wedi'u targedu.		Darparwyd offer TG i <b>100%</b> o fyfyrwyr cymwys Coleg Ceredigion er mwyn iddynt allu cael mynediad at ddysgu ar-lein.
	Dosbarthwyd <b>£194,705</b> o gymorth grant gan Chwaraeon Cymru i grwpiau chwaraeon cymunedol i'w helpu i ddychwelyd i ddarpariaeth gymunedol cyn gynted â phosibl.		Mae <b>250</b> o bobl ifanc wedi cael gymorth ar-lein ac wyneb yn wyneb mewn ysgolion ac yn y gymuned ers mis Ionawr 2021.
	Gall <b>26%</b> o eiddo Ceredigion gysylltu â band eang Ffeibr i'r Adeilad. Cyfartaledd y DU yw 25%. Cyfartaledd Cymru yw 23%.		Cefnogwyd <b>269</b> o deuluoedd gan Rwydwaith Canolfannau Teulu Ceredigion gyda sesiynau cyswilt a chymorth ar-lein rheolaidd.
	Cafodd <b>380</b> o rieni â phlant ifanc help i fynd ar-lein gyda chymorth Canolfannau Teulu Ceredigion, Dechrau'n Deg a Theuluoedd yn Gyntaf.		Mae gan <b>85%</b> o eiddo Ceredigion fynediad at gysylltiad Cyflym lawn (>24 Mbps), mae hyn yn is na chyfartaledd y DU (97%) a chyfartaledd Cymru (96%).


## Yr hyn y mae'r data yn ei ddweud wrthym

Darparwyd llawer iawn o gymorth gan gydwelwyr a phartneriaid i liniaru effaith y caledi a achoswyd gan y pandemig. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni ddibynnu ar ddata cadarn i ddweud wrthym a ydym yn gwneud gwahaniaeth. Crëwyd cyfres o ddangosfyrrddau data sy'n galluogi Is-grŵp Tlodi'r BGC i fonitro effeithiolwydd y cymorth a ddarperir. Mae'r rhain yn casglu data byw o wefannau megis gwefannau yr Adran Gwaith a Phensiynau a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Bu cynnydd sylweddol yn nifer y bobl ar Gredyd Cynhwysol yng Ngheredigion ym mis Mawrth/Ebrill 2020, parhaodd y nifer hwn i gynyddu'n raddol hyd at fis Mawrth 2021, ond mae'r nifer wedi dechrau gostwng. Mae'r ffigur ym mis Mehefin 2021 121% yn uwch na'r hyn a gofnodwyd ym mis Mawrth 2020.



Mae Cyfrif Nifer yr Hawlwyr yn mesur nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau yn bennaf oherwydd eu bod yn ddi-waith. Cynyddodd nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau hefyd pan effeithiodd y pandemig ar y DU am y tro cyntaf, mae hyn bellach yn gostwng ond mae ffigur Gorffennaf 2021 yn dal i fod 78% yn uwch na'r ffigur ym mis Mawrth 2020.




Rydym yn gwybod mai pobl ifanc sydd wedi dioddef fwyaf ac rydym yn monitro nifer yr hawlwyr 18-24 oed. Mae'r garfan hon yn dangos tueddiadau tebyg i'r nifer gyffredinol o bobl sy'n hawlio budd-daliadau, sy'n cael ei groesawu. Roedd 185 o bobl ifanc yn hawlio budd-daliadau am eu bod yn ddi-waith ym mis Mawrth 2020, roedd hyn wedi cynyddu i 445 o bobl ifanc ym mis Mawrth 2021 ond wedi gostwng i 290 ym mis Gorffennaf 2021.

Mae 8% o weithwyr cymwys yng Ngheredigion (2,000 o 23,700) wedi ymgymryd â'r cynllun ffyrlo. Yn gyffredinol, mae hyn yn cyd-fynd â rhanbarth canolbarth Cymru (gweler y siart isod). Mae'r cynllun ffyrlo wedi'i ymestyn tan 30 Medi 2021 ond mae lefel y grant sydd ar gael

## Tudalen 15

i gyflogwyr yn dechrau gostwng yn raddol o fis Gorffennaf 2021 ymlaen, ac yna gofynnir i gyflogwyr gyfrannu tuag at gost cyflogau gweithwyr ar ffyrlo.



Mae mesur yr effaith ar lesiant yn anoddach. Cesglir data cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru (Arolwg Cenedlaethol Cymru) ac rydym yn hyderus bod agweddau cenedlaethol yn cael eu hadlewyrchu ar lefel leol yn gyffredinol.

Roedd adroddiad yr arolwg diweddaraf (Ionawr - Mawrth 2021) yn cwmpasu sampl gynrychioliadol a ddewiswyd ar hap o dros 3,000 o bobl 16+ oed ledled Cymru. Roedd yn cynnwys pobl sy'n anoddach eu cyrraedd a phobl nad ydynt yn defnyddio'r rhyngrwyd. Dangosir y canlyniadau ar les ac unigrywedd isod.

Adroddodd 16% eu bod yn unig. Mae hyn yn gynnydd o'r 12% a gofnodwyd ym mis Hydref a Rhagfyr 2020, ond yn debyg i 2019-20, pan nododd 15% eu bod yn unig. Gallai hyn fod yn arwydd y teimlwyd bod y cyfnod clo ddechrau 2021 yn fwy ynysig na chyfnod clo cyntaf y coronafeirws.

Mae effaith cyfnod clo y gaeaf yn cael ei hadlewyrchu yn y canlyniadau llesiant hefyd. Mae 70% o bobl yn nodi boddhad uchel neu uchel iawn â bywyd (Ionawr-Mawrth 2021). Mae hyn yn is na rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2020, pan ddywedodd 78% o bobl yr un peth. Mae 79% o bobl yn dweud eu bod yn teimlo bod pethau maen nhw'n eu gwneud mewn bywyd yn werth chweil, i lawr o 85% yn y tri mis blaenorol. Mae 24% o bobl yn dweud bod ganddynt lefelau uchel o bryder y diwrnod blaenorol, yr un fath â rhwng mis Hydref a mis Rhagfyr 2020. Mae 70% o bobl yn dweud eu bod yn teimlo'n hapus y diwrnod blaenorol, o'i gymharu â 76% yn y chwarter blaenorol.

(ffynhonnell: <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-arolwg-chwarterol-ionawr-i-fawrth-2021> )

Yn olaf, mae'n werth sôn mai Cymru bellach sydd â'r cyfraddau tlodi plant gwaethaf ar ôl costau tai holl wledydd y DU, gyda 31% o blant yn byw o dan y llinell dlodi. Mae ymchwil a wnaed gan Brifysgol Loughborough ar gyfer *UK End Child Poverty Coalition* yn dangos bod cyfraddau tlodi plant yng Ngheredigion wedi cynyddu i fod yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae'r ymchwil yn cwmpasu'r cyfnod cyn y pandemig.

## Y Camau Nesaf

1. Bydd Is-grŵp Tlodi'r BGC yn parhau i ddatblygu'r dangosfyrddau data i sicrhau bod gennym ddealltwriaeth gyffredin o effaith esblygol COVID-19 ar galedi yng Ngheredigion drwy gasglu a dadansoddi data.
2. Rydym yn gwybod bod cyfleoedd i gydweithio â mwy o asiantaethau partner er mwyn hyrwyddo a manteisio ar yr holl gymorth sydd ar gael. Bydd Is-grŵp Tlodi'r BGC adolygu'r rhestr o bartneriaid sy'n cyfrannu (gweler Atodiad B).
3. Mae'r Cynllun Gweithredu yn ddogfen fyw sydd wedi'i chynllunio i gael ei diweddar yn ystod oes y Strategaeth Caledi. Mae rhai partneriaid sy'n cyfrannu wedi cwblhau eu camau gweithredu tra bod camau gweithredu eraill yn dal i fynd rhagddynt. Bydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei adolygu i sicrhau ein bod yn parhau i gydweithio'n effeithiol i gryfhau cydherthedd unigolion a chymunedau wrth i ni addasu i effaith COVID-19.
4. Nid yw'r fframwaith a sefydlwyd i fonitro'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Caledi yn cynnwys modd i bartneriaid dynnu sylw at faterion penodol sy'n peri pryder. Yn benodol, y rheini y mae'n bosibl y gall y BGC fynd i'r afael â hwy'n effeithiol ar sail amlasiantaethol. Bydd y fframwaith monitro yn cael ei addasu er mwyn iddo gynnwys ffordd glir o nodi materion penodol sy'n peri pryder y gall darparwyr cymorth, dinasyddion ac aelodau Is-grŵp y BGC eu codi.

## Atodiad A: Adroddiadau Manwl ar y Cynllun Gweithredu

**Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi Ceredigion  
Adroddiad Cynllun Gweithredu  
22/01/2021  
Colofn Un: Cydnerthedd Ariannol**


### Fframwaith monitro: Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi

Mae'r Strategaeth i Fynd i'r Afael â Chaledi a'r Cynllun Gweithredu ar waith. Bydd yr Is-grŵp Tlodi yn monitro'r cynllun. Bydd y Fforwm Darparu Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc yn craffu ar faterion sy'n ymwneud â Thlodi Plant. Cynhelir cyfarfodydd y fforwm wythnos cyn yr Is-grŵp Tlodi, er mwyn cefnogi'r broses hon.

Mae gwaith i'w wneud ar gynllun ymgysylltu, er mwyn gwneud yn siŵr ein bod yn ymgysylltu'n effeithiol â'n holl randdeiliaid, yn enwedig y rhai hynny â nodweddion gwarchodedig.

Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Strategaeth Economaidd Ceredigion 2020-2035 i ben ar 29 Ionawr 2021. Bydd y Strategaeth Economaidd yn cael ei chysoni â'r Strategaeth i Fynd i'r Afael â Chaledi.

### Statws COG: Gweithredoedd Mynd i'r Afael â Chaledi



Coch: 0 (0%); Oren: 27 (44%); Gwyrdd: 28 (45%)  
55 allan o'r 62 adroddiad (89%) wedi'u dychwelyd

## Rhwydwaith Canolfannau Teulu Ceredigion

Mae 269 teulu wedi cael eu cefnogi gan Rhwydwaith Canolfannau Teulu Ceredigion, gyda chyswilt ar-lein a sesiynau cymorth rheolaidd.

Mae pecynnau gweithgareddau a llesiant wedi cael eu dosbarthu i deuluoedd pob 3 mis eleni, yn ogystal â pharseli bwyd a pheiriannau coginio araf i deuluoedd mewn angen.

Mae gwybodaeth am gymorth ariannol, iechyd a llesiant, rhianta, datblygiad plant a syniadau am weithgareddau yn cael eu rhannu'n rheolaidd â theuluoedd.

Mae **94** teulu wedi cael eu cyfeirio i gael cymorth wedi'i darged: **7** i Tîm o Amgylch y Teulu; **48** i Fanc Bwyd; **20** am Fwndel Babi; **17** am grant 'Cot ac Esgidiau Glaw'; **2** i Gyngor ar Bopeth.

### Porth y Gymuned a Tîm o Amgylch y Teulu (TAF)

Gwnaed **419** atgyfeiriad i Porth y Gymuned (rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2020) a neilltuwyd **171** achos i Gysylltwyr Cymunedol.

Mae **Porth y Gymuned** wedi creu rhestrau o wasanaethau dosbarthu bwyd, banciau bwyd ac adnoddau, gan gynnwys cymorth gydag arian a dyledion. Mae'r rhain wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor. Mae cynlluniau ar y gweill i gynnal cymorthfeydd rhithwir gyda Chysylltwyr Cymunedol i rannu gwybodaeth a chynnig cyngor.

Gwnaed **46** atgyfeiriad at TAF (rhwng mis Gorffennaf a mis Rhagfyr 2020). Cynhalwyd sesiwn 'Gadewch i ni Siarad am Arian' ar gyfer **3** theulu ac mae rhieni ifanc sy'n cael eu cefnogi gan y tîm yn elwa'n rheolaidd ar gymorth gan 'Cyngor ar Bopeth'.

### Tai – Cymorth Ariannol

Mae manylion gwahanol grantiau/benthyciadau ar wefan y Cyngor: [Tai - Gwybodaeth a Chymorth Ariannol](#)

- Cronfa Cartrefi Clyd (Cynllun Caron Cynnes) - cafodd **107** o systemau gwres canolog eu gosod mewn tai nad oedd gwres canolog ynddynt cyn hynny
- Cronfa Cartrefi Clyd (cynllun refeniw) - gosodwyd **19** boeler newydd yn lle boeleri oedd wedi torri
- Cynllun Hyblygrwydd ECO - derbyniwyd **171** cais
- Grantiau cymorth ar gyfer cyflawni atgyweiriadau brys mewn cartrefi - cwblhawyd **15** hyd at fis Ionawr 2021

### Astudiaeth achos

Roedd Teulu A yn byw mewn tlodi. Roeddent yn byw mewn ardal wledig ac nid oedd ganddynt fynediad at gar a dim posibiliadau i gynyddu eu hincwm.

Fe wnaeth Tîm o Amgylch y Teulu (TAF) eu cefnogi gyda chais am dai a hwyluso'r sgwrs gyda darparwr tai. Darparwyd cymorth ariannol ar gyfer y costau symud. Cynorthwywyd y teulu i wneud cais i'r ysgol ac i gofrestru gyda meddyg teulu.

**Canlyniad:** gwell amodau tai. Mwy o bresenoldeb yn yr ysgol. Llai o unigedd.

**Gwell mynediad at wasanaethau.**

- Grantiau Diogel, Cynnes a Sicr - **31** (gostyngiad gan na ellid cynnal ymweliadau wyneb yn wyneb)
- Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - **20** (gostyngiad yn sgil llai o ymweliadau wyneb yn wyneb gan Therapyddion Galwedigaethol)
- Benthyciadau Gwella Cartrefi - cymeradwywyd **5** cais
- Benthyciadau Eiddo Gwag - cymeradwywyd **2** gais

Derbyniwyd llai o geisiadau a chafodd llai o gyfleusterau eu gosod mewn tai oherwydd y cyfnod clo. Cynhaliwyd ymgyrch bostio ac anfonwyd **4,400** o lythyron iaelwydydd bregus mewn partneriaeth â Nyth.

Mae'r wefan Dewisiadau Tai yn cael ei defnyddio'n aml; gellir gwneud ceisiadau ar gyfer y Gofrestr Tai 24/7. Gwnaethpwyd **953** cais ar gyfer y Gofrestr Dai a chefnogwyd **218** tenantiaeth newydd rhwng mis Ebrill 2020 a mis Ionawr 2021. Cafwyd **25** achos o drafod digartrefedd oherwydd dyledion rhent.

O'r ceisiadau a wnaed ar gyfer y Gofrestr Dai, nododd **129** (14%) ohonynt resymau ariannol fel maes sy'n peri pryer (*mae'r ffigyrâu yn ymneud â cheisiadau newydd yn unig*).

Cysylltir â phob cais sy'n nodi pryeron ariannol i egluro'r sefyllfa a'r brys. Caiff tenantiaid eu cyfeirio at ddarparwyr cymorth a sefydliadau cynggor am gymorth. Rhennir gwybodaeth am y Gronfa Cymorth Dewisol ar gyfer prynu tanwydd lle bo hynny'n briodol.

Mae rhaglen gyflenwi'r Grant Tai Cymdeithasol wedi cyfuno gwahanol ffrydiau ariannu i dargedu a chynyddu nifer yr unedau fforddiadwy a ddarperir. Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar gynlluniau i roi'r potensial i awdurdodau trosglwyddo stoc megis Ceredigion gaffael a datblygu eu tai cymdeithasol a fforddiadwy eu hunain yn y dyfodol.

## Darparwr Cymorth Tai – Cymdeithas Gofal

Mae Cymdeithas Gofal yn cynnig cymorth ymarferol i'r sawl sydd eisoes yn ddigartref neu y mae perygl iddynt fod yn ddigartref. Dyma'r hyn a gyflawnwyd ganddynt yn ystod y cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Awst 2020:

- Rhoddasant gymorth i **98** o bobl gael lle mewn llety brys dros dro
- Aethant ar **405** o 'deithiau dosbarthu bwyd' er mwyn sicrhau bod gan eu cleientiaid fwyd hanfodol, a darparwyd **218** o barseli bwyd ar gyfer sefyllfaoedd o argyfwng
- Cynhaliwyd **9,027** o gysylltiadau cymorth o bell a **658** o wiriadau lles a diogelwch
- Casglwyd a dosbarthwyd **253** presgripsiwn
- Rhoddwyd cymorth gyda **2,260** ymholiad ynglŷn â budd-daliadau
- Darparwyd **849** o wasanaethau cefnogi ychwanegol o fewn y gymuned

## Budd-dal Tai a Chynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor

Yn sgil y pandemig gwelwyd cynnydd yn nifer y bobl sy'n ceisio cymorth ariannol. Yn yr haf pan oedd y sefyllfa ar ei hanterth, roedd oddeutu 300 o hawlwr ychwanegol yn cael cymorth budd-dal Tai a chymorth Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor.

Roedd **6,030** o bobl yn derbyn y budd-daliadau hyn ym mis Gorffennaf 2020 (o'i gymharu â **5,737** ym mis Chwefror 2020).

Ar gyfartaledd, mae'n cymryd **17** o ddiwrnodau i brosesu hawliadau newydd a **3** diwrnod i brosesu unrhyw newidiadau angenrheidiol. (*Cymharer hyn â'r sefyllfa yn 2019/20:18.5 o ddiwrnodau a 4 diwrnod*). Talwyd gwerth £282,953 o Daliadau Disgresiwn at Gostau Tai.

Mae'r sawl sy'n gymwys wedi elwa ar y ffaith bod asesiadau ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim wedi eu cynnwys law yn llaw â Budd-dal Tai a Chynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor.

## Prydau Ysgol am Ddim a'r Grant Datblygu Disgyblion

Mae nifer y disgyblion sy'n hawlio Prydau Ysgol am Ddim wedi cynyddu o 953 (ym mis Medi 2019) i 1,557 (ym mis Ionawr 2021).

Mae pawb sy'n hawlio prydau ysgol am ddim bellach yn derbyn taleb Tesco neu daliad BACS o £19.50 yr wythnos ar gyfer pob plentyn cymwys pan fo'r ysgolion ar gau.

Cyflwynwyd system arlwoy heb arian parod ym mhob ysgol ym mis Medi 2020 a sefydlwyd system i dalu'r Grant Datblygu Disgyblion cyn dechrau'r flwyddyn academaidd (mis Medi 2020).

## Gofal Plant

Dim ond **£197,030** o arian a ddarparwyd i leoliadau drwy gyfrwng y Cynnig Gofal Plant rhwng mis Mehefin a mis Tachwedd 2020; gostyngiad o **44%** o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

Caeodd y rhan fwyaf o'r llefydd oedd yn darparu gofal plant yn ystod y cyfnod clo cyntaf, ar wahân i'r Canolfannau Gofal Plant. Mae **82%** ohonynt ar agor bellach ond dim ond **6 allan o'r 13 clwb** y tu allan i oriau ysgol sydd ar agor. Mae dau glwb wedi cau'n barhaol o ganlyniad i Covid.

Dim ond 1 plentyn ag anableddau a dderbyniodd gymorth i fynychu gofal plant y tu allan i'r ysgol. Bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio yn lle hynny i ddarparu hyfforddiant ar anableddau cudd i'r sector gofal plant.

Mae pob cynllun DASH a chymorth i blant ag anableddau wedi bod ar gael am ddim i ddefnyddwyr yn ystod y pandemig (codir tâl bychan fel arfer).

## Yr Economi Leol

Mae tîm y Cyngor sy'n gyfrifol am Ddiogelu'r Cyhoedd wedi archwilio ac wedi cynnig cyngor ysgrifenedig a chyngor ar lafar i ystod eang o fusnesau ar y mesurau sy'n angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â chyfngiadau'r coronafeirws. Oddi ar fis Mawrth, gwnaethpwyd **2,659** o ymweliadau i eiddo er mwyn cynghori.

Gwelodd Tîm Cymorth Cyflogaeth y Cyngor gynnydd mewn atgyfeiriadau pan ddaeth y prosiect 'Cam Nesa' i ben ar 31 Rhagfyr.

Mae Dysgu Bro yn cynnal hyfforddiant ynghylch MS Teams a Zoom. Maent hefyd wedi cynnal hyfforddiant Cymorth Cyntaf i Blant i'r sector gofal plant a hyfforddiant lechyd a

Diogelwch lefel 1 i gynorthwyo pobl i gael carden y Cynllun Ardystio Sgiliau Adeiladu (CSCS), fel eu bod yn gallu gweithio ar safleoedd adeiladu.

## Cyflogaeth

Mae niferoedd Yr Adran Waith a Phensiynau wedi cynyddu'n sylweddol.

Mae cwsmeriaid wedi bod yn derbyn cefnogaeth - naill ai wyneb yn wyneb pan fo'r sefyllfa'n caniatáu hynny neu drwy gyfrwng dulliau electronig. Mae digwyddiadau rhithwir wedi eu cynnal lle'r oedd cyflogwyr, darparwyr a chwsmeriaid yn gallu trafod y dewisiadau gorau a chynnig/derbyn cefnogaeth.

Mae'r rhaglen Kickstart yn cynnig cymorth ariannol i gyflogwyr dderbyn pobl ifanc i swyddi cyflogedig, gan roi sgiliau gwaith hanfodol a gwybodaeth ychwanegol iddynt ar gyfer eu CV. Mae hyn yn cynyddu nifer y swyddi gwag sy'n ymddangos i Hyfforddwyr Gwaith eu trafod gyda'u cwsmeriaid.

## Cysylltiadau Trafnidiaeth Fforddiadwy a Hygyrch

Mae Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol yn cael eu hadolygu ac maent yn ymgynghori arnynt ar hyn o bryd. Bwriedir cynnal cynlluniau Teithio Llesol newydd ar yr A44 a'r A487.

Bydd yr orsaф reilffordd newydd yn Bow Street yn agor ganol mis Chwefror. Bydd gwasanaethau bws lleol a thacsis yn cyfrannu at y gwelliant hwn i'r seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus yng Ngheredigion.

## Lleihau biliau aelwydydd

Mae'r Cyngor yn darparu cymorth ariannol i sefydliadau ailddefnyddio elusennol yng Ngheredigion, gan leihau cost eitemau cartref o ansawdd da y byddai rhai trigolion fel arall yn ei chael yn anodd eu fforddio. Byddwn yn ceisio tyfu'r sector hwn drwy godi ymwybyddiaeth rhanddeiliaid perthnasol o'r cyfleoedd ariannu posibl.

**Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi Ceredigion  
Adroddiad Cynllun Gweithredu  
23/04/2021  
Colofn Dau: Lles Corfforol ac Emosiynol**

## Cynllun Gweithredu – Y Fframwaith

Mae'r Is-grŵp Tlodi yn monitro'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Mynd i'r Afael â Chaledi. Mae'r Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn craffu ar faterion sy'n ymwneud â Thlodi Plant. Mae'r Fforwm yn cyfarfod wythnos cyn yr Is-grŵp Tlodi er mwyn i'r adborth fod yn amserol.


Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i rannu'n 3 Colofn a ddisgrifir yn y Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi:

**Colofn 1** – cymorth i'r rhai sy'n profi caledi ariannol

**Colofn 2** – cymorth i'r rhai sy'n profi blinder, straen a phryder

**Colofn 3** – sicrhau bod pobl yn gallu cael gafael ar wasanaethau

Colofn 1 oedd canolbwyt cyfarfod yr is-grŵp Tlodi ym mis Ionawr 2021, a chanolbwyntiodd y cyfarfod ym mis Ebrill 2021 ar Golofn 2.



Coch: 0 (0%); Oren: 30 (46%); Gwyrdd: 31 (48%)  
65 adroddiad  
94% wedi'u dychwelyd

Darparodd gwasanaethau **Ymyrraeth Gynnar, Porth Cymorth Cynnar** 20,437 o barseli bwyd, pecynnau lles/seibiant, pecynnau darllen, pecynnau adnoddau a phecynnau Teuluoedd Actif i grwpiau wedi'u targedu.

Sylwad, "Roedd derbyn fy mhecyn lles yn y post wir yn gwneud i mi deimlo bod rhywun yn gofalu amdanaf ac wedi gwneud i mi sylweddoli nad Mam yn unig ydw i ac mae angen i mi ofalu amdanaf fy hun hefyd"

Derbyniodd 30 o grwpiau cymunedol becynnau mislif i'w dosbarthu i fenywod a merched.

Cyflwynwyd dros 150 o grwpiau, rhagleni a chrysiau ar-lein. Mynychodd 6 rhiant grŵp 'Building Emotionally Resilient Teenagers' (BERT). Sylwad, "Rwy'n teimlo'n hyderus fy mod yn gallu eistedd i lawr gyda'm mab a siarad ag ef am gyffuriau gan fod gennyl y wybodaeth nawr."

Mae dros 1,600 o wasanaethau sy'n canolbwytio ar Geredigion bellach wedi'u cofrestru ar wefan Dewis Cymru.

Mae gan grŵp cyfryngau cymdeithasol 'Cysylltu â Charedigrwydd' Ceredigion 584 o aelodau. Mae 11 o Gysylltwyr Caredigrwydd wedi'u recriwtio ac mae 26 o weithgareddau wedi'u cofrestru ar dudalen Cysylltu Ceredigion.

Roedd 1,068 o Ofalwyr Di-dâl wedi'u cofrestru gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Ofalwyr ym mis Mawrth 2021 (cynnydd o 29% ers mis Mawrth 2020). Roedd 56 Gofalwr wedi elwa o 1,053 awr o seibiant erbyn Rhagfyr 2020. Roedd rhifyn Gwanwyn cylchgrawn yr Uned Gofalwyr yn canolbwytio ar ffyrdd o wella lechyd Meddwl a lles.

Dosbarthodd **Plant Dewi, Rhwydwaith Canolfannau Teulu** 527 o becynnau gweithgareddau i deuluoedd a chyniodd gyrsiau a gweithgareddau ar-lein yn rheolaidd gyda chynnydd yn nifer y cyfranogwyr wrth i staff a chyfranogwyr fagu hyder a sgiliau.

Mynychodd 137 o deuluoedd gyrsiau rhianta. Parhaodd staff y Ganolfan Deulu i wneud gwiriadau lles rheolaidd gyda theuluoedd dros y ffôn, Messenger neu WhatsApp.

Mae 64 o bobl ifanc wedi cofrestru ar gyfer cwnsela ar-lein gan **Area 43** yng Ngheredigion (Ionawr – Mawrth 2021).

Mae'r gwasanaeth cwnsela ar-lein yn parhau i gael ei ddefnyddio'n rheolaidd ledled y sir. Ar hyn o bryd mae hwn yn cael ei ariannu gan Fwrdd lechyd Hywel Dda - 2 ddiwrnod yr wythnos yn Ne Ceredigion a 4 diwrnod yr wythnos yng Ngogledd Ceredigion (mae'r gwasanaeth yn aros am gymeradwyaeth cyllideb - felly mae rhestr aros o 29).

Mae 20 o bobl ifanc wedi derbyn cymorth yn y Ganolfan (Ionawr – Mawrth 2021). Mae gwasanaeth galw heibio'r ganolfan ar gael drwy apwyntiad yn unig a thrwy gyfryngau cymdeithasol/e-bost a chyswilt ffôn.

Bydd allgymorth yn ailddechrau nawr bod y tywydd yn gwella.

Mae **Coleg Ceredigion** yn parhau i gynnig amrywiaeth o wasanaethau cymorth personol, mentora a chwnsela i ddysgwyr, naill ai ar-lein neu wyneb yn wyneb.

O ystyried y bydd dysgu wyneb yn wyneb yn ail-ddechrau yn raddol ar gyfer tymor yr haf 2021, rhagwelir y bydd mwy o gymorth yn cael ei gynnig wyneb yn wyneb yn ystod y misoedd nesaf, yn rhannol mewn ymateb i'r pwysau a deimlwyd gan bobl ifanc dros y flwyddyn ddiwethaf.

Mae'r tîm lles yn cynnig sesiynau lles ar-lein yn wythnosol, mae nifer dda yn mynchu'r rhain ac maent yn ymdrin â phynciau megis ymdopi â'r cyfnod clo, ymarfer corff a chysgu.

**Mae Gwasanaethau Ysgolion, Anghenion Dysgu Ychwanegol, Cynhwysiant a Lles**  
wedi rhannu ystod eang o adnoddau lles ar gyfer disgylion a staff ym mhob ysgol.  
Mae rhagor o hyfforddiant ELSA (Cymorth Llythrennedd Emosiyonal) yn cael ei ddarparu.

Cynigiwyd cwnsela ar-lein, ond mae'r nifer sy'n derbyn hwn wedi bod yn isel gan fod disgylion yn dweud y byddai'n well ganddynt gwnsela wyneb yn wyneb. Bydd hyn yn ailddechrau mewn ysgolion ar ôl y Pasg o dan asesiad risg a chanllawiau diwygiedig Ceredigion.

Mewn ymateb i'r risg o bobl ifanc a phlant yn teimlo'n unig ac yn ynysig, mae **Theatr Felinfach** wedi datblygu llwyfan digidol ar gyfer gweithgareddau creadigol. Mae'r platform, "Dychmygus" yn cynnwys ffilmiau, gemau a thiwtorialau.

Mae prosiectau penodol yn cynnig cyfleoedd cyfranogi cyfrwng Cymraeg i blant a phobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys ffilmiau Llesiant gydag Ymarferydd lechyd a Lles, sesiynau Theatr a Drama, sesiynau drama wythnosol ar gyfer plant/pobl ifanc sy'n derbyn addysg yn y cartref a phrosiect perfformio pantomeim rhithwir.

Mae prosiect wedi'i gynllunio gyda'r rapiwr Cymraeg, Ed Holden, a bydd hyn yn adlewyrchu ar obeithion pobl ifanc ar gyfer y dyfodol wrth i amgylchiadau cymdeithasol newid.

Cyrhaeddiad digidol mis Ebrill i fis Medi 2020-21 oedd 300,000. Fel arfer, rydyn yn adrodd ar gyfleoedd cyfranogi wyneb yn wyneb o tua 40,000 y flwyddyn.

Gwnaeth gwasanaeth **Porth Cymorth Cynnar, Cefnogi ac Atal** 3,000 o alwadau lles i 600 o blant/pobl ifanc a'u teuluoedd.

Dosbarthwyd 800 o becynnau lles a chymerodd 67 o bobl ifanc ran yn y rhaglen wedi'i thargedu am dair wythnos dros yr haf.

Mae 250 o blant/pobl ifanc yn cael eu cefnogi mewn ysgolion ac o bell. Ar hyn o bryd mae 15 o blant/pobl ifanc yn cael ymweliad lles wrth y drws o leiaf bob wythnos neu bob pythefnos.

Mae rhaglen gweithgareddau rhithwir y Gwasanaeth Ieuenciad wedi ymgysylltu â 74 o bobl ifanc mewn sesiynau gweithgareddau ar-lein wythnosol sy'n cwmpasu ffyrdd iach o fyw, Addysg Gorfforol a lles.

Mae themâu dyddiol yn cael eu rhannu ar eu tudalennau cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, gweithgarwch corfforol a lles. Mae'r Cyngor Ieuenciad a'r Fforwm Pobl Ifanc 'Dewis' wedi parhau i gyfarfod yn rhithiol drwy gydol y cyfnod clo. Cyflwynwyd rhaglen seicoaddysg ar gyfer pobl ifanc mewn Ysgolion, a gynlluniwyd i hyrwyddo lles ac atal problemau iechyd meddwl. Dywedodd un person ifanc, "Rwy'n credu ei fod wedi rhoi mynediad i mi at fwy o dechnegau y gallaf eu defnyddio er mwyn gwella fy iechyd meddwl."

Darperir sesiynau rhithwir 'Hafan Haul' i gefnogi pontio o ysgolion cynradd i ysgolion uwchradd, ynghyd â rhai ymyriadau wedi'u targedu mewn rhai ysgolion cynradd. Mae angen mabwysiadu hyn ym mhob ysgol uwchradd. Cynhelir cyfarfodydd swigod ysgol, mae'r rhain yn gweithio'n dda i nodi materion yn gynnar.

**Gwasanaethau Ysgolion, Uned Gofal Plant** - Mae darparwyr gofal plant yn cynnig gwasanaeth hanfodol i leihau straen a phryder i bobl sy'n dibynnu ar ofal plant fel gwasanaeth hanfodol i weithredu.

Darparwyd diweddariadau rheolaidd i'r sector gofal plant drwy gydol y 12 mis diwethaf. Mae hyfforddiant wedi'i gyflwyno i 107 o staff o'r sector.

- Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs)
- Datblygu Iaith a Lleferydd
- Y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) newydd, a
- Phrofion Llif Unffordd.

Mae £484,944 o gyllid Llywodraeth Cymru wedi'i ddosbarthu i ddarparwyr gofal plant i'w helpu i aros ar agor. Fodd bynnag, collwyd 30 o leoedd gofal plant cofrestredig yn ystod y 12 mis diwethaf.

Mae **DASH Ceredigion** yn cynnig cyfleoedd hamdden i blant/pobl ifanc anabl a seibiant i deuluoedd. Mae 19 o deuluoedd wedi elwa o seibiant.

Mae 25 x o blant/pobl ifanc wedi mwynhau rhywfaint o amser allan gyda gweithiwr cymorth. Gan mai nifer llai o blant/pobl ifanc y gellir eu cefnogi oherwydd y cyfngiadau, y rhai sydd â'r anghenion mwyaf cymhleth sy'n cael eu cefnogi.

**Dyfyniad gan riant**, "Mae'n anodd trafod sut mae seibiant yn helpu pob un o honom heb drafod sut beth yw bywyd heb seibiant. Mae'n amhosibl disgrifio sut beth yw bywyd heb seibiant - o dan amgylchiadau arferol mae'n straenus ac yn flinedig, ac yn ystod y cyfnod clo roedd fil gwaith yn waeth, ac roeddem yn cael trafferth ymdopi bob dydd. Nawr bod yr ysgol yn gweithredu eto (ond mae'r cymorth arferol wedi'i atal o hyd) mae hynny'n rhoi rhywfaint o seibiant i bob un o honom, ond mae diwrnodau ysgol yn fyr (mae dyddiau P yn fyrrach na'r rhan fwyaf o blant eraill gan ei fod yn cael trafferth aros am ddiwrnod llawn) ac mae'r ychydig oriau sydd gennym i allu gwneud pethau a chael ychydig o lonydd yn hedfan heibio'n fuan.

Fodd bynnag, mae seibiant dros nos, ac yn enwedig seibiant dros y penwythnos (dwy noson yn olynol), yn rhywbeth arall eto. Gallwn atgoffa ein hunain sut beth fyddai bywyd arferol. Gallaf gysgu am fwy na phedair awr ar y tro (neu os byddaf yn deffro, nid wyf yn gorfol bod ar alwad), cael paned o de, gwneud pethau, gadael y tŷ am fwy nag ychydig oriau, ymgolli yn yr hyn yr wyf yn ei wneud heb ddisgwyl trychineb neu edrych ar y cloc yn gyson. Gallwn dreulio amser gyda'n gilydd fel teulu (er ein bod ar hyn o bryd wedi anfon brawd P yn ôl i'r Brifysgol yn fuan gan fod bywyd gyda P mor anodd).

I P, mae'r manteision yr un mor bwysig - gall dreulio amser gyda rhywun nad yw'n fam iddo. Gall dreulio amser mewn lleoliad gwahanol, gyda gwahanol bobl sydd â disgwyliadau gwahanol. O ystyried ei obsesiwn eithafol a'i feddwl anhyblyg, mae derbyn amrywiaeth o brofiadau yn bwysig iawn iddo. Mae'n derbyn gofal da ac yn mwynhau ei hun. Ac yn anad dim, mae'n dod adref at ofalwr sydd wedi cael ychydig o amser i wella o'r straen eithafol yn sgil gofalu amdano".

**Porth Cymorth Cynnari, Canolfannau Llesiant** - Mae holl ddarpariaeth y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff (NERS) wedi bod yn rhithwir drwy alwadau ffôn, negeseuon e-bost a darparu cynlluniau ymarfer corff y gall cleientiaid ymgymryd â nhw gartref.

Mae cyswllt wedi'i gynnal â 583 o gleientiaid NERS a gwnaed 29,986 o alwadau lles (Mawrth 2020 – Mawrth 2021). Crëwyd 9 calendr ymarfer corff lles misol. Cyflwynwyd 226 o ddosbarthiadau ymarfer corff ar-lein sydd wedi'u gwylio dros 7,000 o weithiau drwy Facebook a YouTube.

**Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda** - Mae 3 aelod o staff Allgymorth Datblygu Cymunedol i gefnogi Pobl Dduon ac Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig wedi'u reciriwio. Byddant yn cefnogi'r gwasanaeth Profi, Olrhain a Diogelu ac yn ymgysylltu â chymunedau i gyfleo negeseuon iechyd a lles a chefnogi cymunedau BAME i leihau'r risgau sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldebau iechyd.

**Priffyrrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol** – mae Rhwydwaith Teithio Llesol Ceredigion yn gwella llwybrau teithio lleol sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer ymarfer corff a hamdden. Daeth yr ymgynghoriad cyhoeddus ar Fapiau Rhwydwaith Teithio Llesol i ben ym mis Mawrth 2021. Bydd hyn yn rhoi gwybod i'r Cyngor lle y dylid gwneud gwelliannau i gerdded a beicio yn y sir.

Mae ymbarél Caru Ceredigion yn ceisio ymgysylltu â chymunedau ymhellach ynghylch materion amgylcheddol lleol sy'n bwysig neu sy'n peri pryer iddynt. Mae'n anochel bod y pandemig wedi cael effaith ar y cyfleoedd i weithredu prosiectau. Fodd bynnag, mae gwaith paratoi a chynllunio ar y gweill i gefnogi grwpiau lleol unwaith y bydd yn ddiogel gwneud hynny. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyno'r fenter 'Eich Ci Eich Cyfrifoldeb' (a lansiwyd ym mis Mawrth 2021) a chasglu sbwriel mewn cymunedau ac ar draethau. Llenwyd dros 750 o fagiau o sbwriel yn ystod gweithgareddau casglu sbwriel wrth ymyl y ffordd (Mawrth 2021).

**Porth Gofal, Gwasanaethau Brysbennu ac Asesu Integredig** - asesir atgyfeiriadau a dderbynir gan y tîm Brysbennu Integredig, ac os cânt eu neilltu i weithiwr o fewn y tîm, bydd asesiad cyfannol, yn seiliedig ar ddulliau Arwyddion Diogelwch, yn ystyried lles corfforol ac emosiynol yr unigolyn. Yna darperir cymorth gan wasanaethau statudol neu wasanaethau 3ydd sector.

Ymunodd 7 gweithwyr cymdeithasol cynorthwyol â'r tîm ym mis Mawrth 2021 a byddant yn cefnogi gyda gwaith Rhyddhau i Adfer ac Atal Rhag Mynd i'r Ysbyty.

Mae gweithwyr yn parhau i weithio gyda Gofalwyr i leihau'r risg y bydd Gofalwyr yn methu ag ymdopi. Trefnir gwasanaethau cymorth i ofalwyr, gan gynnwys darpariaeth 3ydd sector, yn dibynnu ar ganlyniadau'r asesiad. Mae lleoliadau seibiant wedi'u hatal oherwydd COVID.

Mae gwasanaeth **Porth Cynnal, Camddefnyddio Sylweddau** yn parhau i sgrinio a chynnig asesiadau i bobl y mae camddefnyddio sylweddau yn effeithio ar eu lles. Dim ond os bernir bod hynny'n hanfodol y gellir ymweld wyneb yn wyneb.

Derbyniodd y tîm 42 o atgyfeiriadau (Mawrth 2020 - Mawrth 2021). Caewyd 20 achos gydag 16 wedi gwella, a 4 heb eu gwella.

Mae gwaith i gefnogi pobl i gynnal eu tenantiaethau yn cynyddu ac mae mwy o waith wedi'i dargedu yn digwydd i alluogi pobl ifanc (18-25) i drosglwyddo'n esmwyth i'r gwasanaethau i oedolion.

Mae'r tîm yn gweithio gyda phartneriaid lleol a chenedlaethol i sefydlu penderfyniadau ariannol ar angen yn hytrach na phoblogaeth, mae hyn ar gam cynnar iawn ond mae'n hanfodol i ddiwallu'r anghenion dystiolaethol yng Ngheredigion.

Mae gwasanaeth **Porth Cynnal – Iechyd Meddwl** yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i adolygu'r ffordd y caiff gwasanaethau Iechyd Meddwl eu rhedeg yn lleol.

Maent hefyd yn gweithio gyda'r Bwrdd Iechyd i gefnogi'r rhaglen 'Trawsnewid Iechyd Meddwl' dan arweiniad Iechyd sy'n cynnwys cynnig gwasanaeth 24/7 yng Ngogledd Ceredigion a darparu gwelyau lletygarwch i bobl mewn argyfwng.

Mae cymeradwyaeth wedi'i chael i ddarparu i gynnig cwnsela wyneb yn wyneb mewn ysgolion, rhywbeth yr oedd disgyblion yn ei ddymuno'n gryf. Ategir hyn gan gwnsela a ddarperir gan CAMHS i bobl ifanc a hyfforddiant CAMHS i athrawon.

Mae taflen adnoddau wedi'i chynhyrchu a'i dosbarthu i ffermwyr i amlinellu'r cymorth Iechyd Meddwl sydd ar gael (yn anffodus profodd y gymuned ffermio hunanladdiad yn ddiweddar). Mae'r tîm hefyd yn gweithio gyda Thai, yr Heddlu a'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu llwybrau cymorth iechyd meddwl cymorth cynnar ymhellach.

Bydd y cynllun 'Mannau Anadlu', sy'n dechrau ym mis Mai 2021, yn darparu seibiant ariannol o ddyledion pan fydd rhywun mewn argyfwng iechyd meddwl neu'n glaf mewnol. Mae'r cynllun hwn yn cael ei hyrwyddo'n eang gan y tîm.

**Mae Cymdeithas Gofal** yn cefnogi unigolion sydd â phroblemau ynysu cymdeithasol cymhleth gan gynnwys y rhai sy'n cael rhywfaint o ryngweithio cymdeithasol gan eu gofalwyr cyflogedig, glanhawyr, darparwyr prydau bwyd ac ati ond sydd angen mwy o gyfeillgarwch a chefnogaeth.

Rhwng mis Mawrth 2020 a mis Chwefror 2021:

- gwnaed 14,054 o gysylltiadau o bell dros y ffôn, drwy neges destun neu e-bost
- cynhaliwyd 1,453 o wiriadau lles a diogelwch
- gwnaed 693 o rediadau bwyd hanfodol, a dosbarthwyd 374 o barseli bwyd brys

Mae **Fforwm Cymunedol Penparcau** bellach yn dosbarthu bwyd i 74 o aelwydydd ym Mhenparcau (40 o deuluoedd a 34 o drigolion oedrannus). Mae nifer y gwirfoddolwyr wedi cynyddu ac felly mae'r un gwirfoddolwyr yn dosbarthu i'r un trigolion bob dydd Sadwrn, dydd Sul a dydd Llun.

Mae'r bobl fwyaf agored i niwed yn cael ymweliad a galwad ffôn o leiaf unwaith yr wythnos ar ben y danfoniad bwyd.

Maent bellach yn gweithredu 7 diwrnod yr wythnos ac wedi ymuno â'r cynllun CAB sydd wedi gosod ffôn a gliniadur yn y Ganolfan er mwyn i bobl gysylltu â CAB o bell.

Bu cynnydd enfawr mewn ymgysylltu â'r gymuned yn y pentref oherwydd eu gwaith a fydd yn cael ei adolygu ym mis Tachwedd 2021.

**Polisi a Pherfformiad, tîm cymorth y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus - Mae Grŵp Prosiect Hyfforddiant Cydnerthedd y BGC yn mapio engrifftiau o hyfforddiant cydnerthedd sydd eisoes ar waith ar draws sefydliadau Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.**

Cofnodir y rhain ar safle a rennir, sy'n caniatáu iaelodau ddiweddar u'r rhestr yn ôl yr angen a myfyrio ar gyfleoedd a gynigir drwy sefydliadau partner. Mae hwn yn ddarn o waith sy'n mynd rhagddo ac mae'r Grŵp Prosiect yn awyddus i sicrhau bod yr adnodd yn cael ei ddiweddar u'n barhaus. Bwriedir cynnal trafodaeth yn y cyfarfod nesaf i egluro cyfeiriad y grŵp a sefydlu a oes awydd o hyd am Hyfforddiant Cydnerthedd a rennir ar draws sefydliadau'r BGC.

Mae Amcanion Llesiant Ceredigion wedi'u hadolygu yng ngoleuni'r pandemig a'i effaith. Mae'r amcanion diwygiedig yn canolbwytio'n benodol ar waith ymateb Covid-19 y bydd ei angen yn ystod 2021. Mae hyn yn cynnwys:

- Amddiffyn pobl rhag tlodi
- Cefnogi dinasyddion sydd wedi cael eu heffeithio'n anghymesur gan COVID-19 i wella eu lles corfforol ac emosiynol, a
- Chefnogi busnesau i ymateb i effaith Covid-19

Mae'r adolygiad wedi arwain at restr fyrrach ond mwy penodol o Amcanion Llesiant ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Bydd yr adroddiad nesaf ar gynnydd yn erbyn yr Amcanion yn cael ei gynnal yn ystod yr haf a chaiff ei gyhoeddi yn yr Adroddiad Blynnyddol ym mis Hydref 2021.

**Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi Ceredigion  
Adroddiad Cynllun Gweithredu  
23/07/2021**

**Colofn Tri: Cydnerthedd Cymunedol  
(Sicrhau bod pobl yn medru cael mynediad at wasanaethau, wyneb yn wyneb neu ar-lein)**

Mae'r Is-grŵp Tlodi yn monitro'r Strategaeth a'r cynllun gweithredu Mynd i'r Afael â Chaledi. Mae Fforwm Darparwyr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn craffu ar faterion sy'n ymwneud â Thlodi Plant. Mae'r Fforwm yn cyfarfod wythnos cyn yr Is-grŵp Tlodi er mwyn i'r adborth fod yn amserol.

Mae'r Cynllun Gweithredu wedi'i rannu'n 3 Colofn a ddisgrifir yn y Strategaeth Mynd i'r Afael â Chaledi:


Mae ystafell y post yn parhau i argraffu unrhyw sieciau/hysbysiadau BACS ar ran yr Awdurdod ac yn anfon unrhyw eitemau papur y mae angen eu hanfon yn ddiogel. Erbyn hyn mae ystafell y post yn ymdrin ag argraffu a phacio unrhyw bost ar ran pob un o wasanaethau'r Cyngor.

Mae staff ystafell y post hefyd yn ymdrin ag arian a dderbynir drwy'r post neu sy'n cael ei bostio drwy'r blwch llythyron y tu allan i Ganolfan Rheidol. Cofnodir sieciau ac arian a dderbyniwyd ac fe'u prosesir y diwrnod y maent yn cael eu derbyn, gan anfon derbynebau drwy'r post os gofynnwyd amdanynt neu maent yn cael eu sganio i adrannau. Mae'r blychau post ym Mhenmorfa, Neuadd y Sir, Swyddfa Aberteifi a Swyddfa Llanbedr Pont Steffan yn cael eu gwacáu a'r cynnwys yn cael ei brosesu'n rheolaidd.

Yn ystod pandemig y COVID-19, y rhai yr amharwyd fwyaf ar eu gwaith oedd y tîm Cyswllt Uniongyrchol, gan fod y swyddfeydd ar gau er 20 Mawrth 2020. Mae'r aelodau hyn o staff bellach yn cynorthwyo tîm ystafell y post a thîm y Bathodyn Glas, tra bo dau aelod o'r tîm wedi eu hadleoli i'r tîm Olrhain Cyswllt. Mae hyn wedi rhoi'r cyfle iddynt ddysgu sgiliau newydd ac ennill profiad pellach. Oddi ar fis Mehefin 2021, mae staff Cyswllt Uniongyrchol hefyd wedi cynorthwyo gyda'r broses o ailagor Llyfrgelloedd oddi ar fis Mehefin 2021.

## Gwasanaeth y Bathodyn Glas

Mae tîm y Bathodyn Glas wedi parhau i weithredu drwy gydol y pandemig, gyda staff yn gweithio gartref drwy gydol yr amser. Rhwng 01.09.20020 a 31.08.2021 cyflwynwyd cyfanswm o 1,713 Bathodyn Glas.

## Casgliad

Mae'r gwasanaeth yn perfformio'n dda iawn, ac ar gyfartaledd yn ymdrin ag oddeutu 9,400 o alwadau, 1,500 o e-byst ac yn cofnodi 5,600 o ymholiadau gan gwsmeriaid bob mis.

### A gwblhawyd Asesiad Effaith

**Integredig? Os naddo,  
nodwch pam**

Amherthnasol gan ei fod yn adroddiad ar y modd y darperir gwasanaeth

**LLESIANT  
CENEDLAETHAU'R  
DYFODOL :**

**Crynodeb:  
Hirdymor:  
Integreiddio:  
Cydweithio:  
Cynnwys:  
Atal:**


## ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:

Derbyn cynnwys yr adroddiad hwn ynghylch y modd y darparwyd y Gwasanaethau I Gwsmeriaid yn ystod y 12 mis diwethaf.

## Y RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:

Cyflwyno gwybodaeth am y modd y darparwyd y Gwasanaeth i Gwsmeriaid.

<b>Enw Cyswllt:</b>	Anna Gawthorpe/Joy Lake
<b>Swydd:</b>	Rheolwr Gwasanaeth Cwsmeriaid/Rheolwr Corfforaethol Clic
<b>Dyddiad yr Adroddiad:</b>	14 Hydref 2021
<b>Acronymau:</b>	
<b>Atodiadau</b>	Atodiad 1.



\*Bydd y cwsmer yn derbyn rhif cyfeirnod yr ymholiad wrth iddo gyflwyno ymholiad ar y we

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cyngor Sir CEREDIGION County Council**

**ADRODDIAD I'R:** **Pwyllgor Craffu Adnoddau Corfforaethol**

**DYDDIAD:** **14/10/2021**

**LLEOLIAD:**

**TEITL:** **Adroddiad ar Safonau Llyfrgelloedd**

**PWRPAS YR ADRODDIAD:** **Adrodd ar Safonau Llyfrgelloedd yn Flynyddol**

**Y RHESWM Y MAE**

**CRAFFU WEDI GOFYN AM** Er gwybodaeth

**Y WYBODAETH:**

A gwblhawyd Asesiad Effaith  
Integredig? Os na, nodwch pam Amherthnasol, adrodd ar  
safon y gwasanaeth

**LLESIANT**

**Crynodeb:**

**CENEDLAETHAU'R**

**Hirdymor:**

**DYFODOL:**

**Integreiddio:**

**Cydweithio:**

**Cynnwys:**

**Atal:**

**ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:** Derbyn yr adroddiad. Rhaid i Lyfrgelloedd adrodd i Lywodraeth Cymru unwaith y flwyddyn ar safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru, a hwn yw'r adroddiad ar gyfer 2019/20 yn sgil hynny.

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD/ARGYMHELLION:**

**Cyswllt: Gareth Griffiths**

**Swydd: Rheolwr y**

**Gwasanaeth**

**Llyfrgelloedd**

**Dyddiad yr Adroddiad:**

**10/09/2021**

**Acronymau:**

**Atodiadau:**

## Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Ceredigion

### Adroddiad Asesu Blynnyddol 2019/20

Paratowyd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynnyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan wasanaeth Ceredigion i Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru.

#### 1 Crynodeb gweithredol

Bodlonodd Ceredigion 10 o'r 12 hawl graidd yn llawn a methodd â bodloni 2.

O'r 9 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Ceredigion 8 yn llawn ac 1 yn rhannol.

Mae Ceredigion wedi parhau i berfformio'n dda mewn rhai meysydd yn 2019/20, gyda datblygiadau cadarnhaol o ran adnoddau electronig yn arbennig. Mae Ceredigion yn parhau i fod yn y chwartel uchaf yng Nghymru o ran nifer y llyfrau sy'n cael eu benthyg gan oedolion a phlant, er bod cyfanswm y gwariant refeniw yn parhau'n is na'r canolrif yng Nghymru. Mae Ceredigion hefyd wedi cynnal ei safle yng Nghymru o ran darparu deunyddiau Cymraeg a benthyciadau Cymraeg. Mae'r gwasanaeth yn un o bedwar gwasanaeth yn unig a fodlonodd y targed caffaol. Bu datblygiadau cadarnhaol mewn nifer o feysydd a gwelliant yn Nangosydd Ansawdd 9 yn 2019/20. Fel y nodwyd yn ail flwyddyn y fframwaith, mae'r ffaith nad yw arolygon defnyddwyr ffurfiol wedi cael eu cynnal bellach ers o leiaf chwe blynedd a'r ffaith nad oes strategaeth o hyd yn destun siom.

- Erbyn hyn mae pob un o'r prif fannau gwasanaeth yn darparu ystod lawn o gefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol, a chefnogaeth dda ar gyfer iechyd a llesiant. Mae dwy astudiaeth achos yn dangos effaith fuddiol y gwasanaeth.
- Er bod nifer yr ymweliadau â safleoedd Ilyfrgell wedi gostwng ychydig, mae Ceredigion yn parhau'n uwch na'r canolrif yng Nghymru yn y maes hwn.
- Gwelwyd gostyngiad bach yn nifer y llyfrau oedolion a fenthycwyd, ond unwaith eto dim ond un awdurdod arall yng Nghymru sydd â mwy o fenthyciadau fesul pen o'r boblogaeth na Cheredigion, ac mae nifer y llyfrau plant a fenthycwyd wedi cynyddu. Ceredigion hefyd yw'r uchaf ond un yng Nghymru ar gyfer benthyciadau Cymraeg fesul pen o'r boblogaeth (sy'n siarad Cymraeg).
- Cyflawnir un elfen o'r targed caffaol (DA 9), sy'n welliant ers ail flwyddyn y fframwaith, o ganlyniad i gynnydd yn y teitlau mewn bwndeli e-adnoddau. Mae Ceredigion yn un o bedwar awdurdod yn unig sydd wedi cyflawni'r targed hwn.
- Mae lefelau staffio wedi'u cadw ar lefelau 2018/19 ac mae Ceredigion yn parhau i gyflawni'r gofynion o ran staff cymwysedig (un o bedwar awdurdod yn unig sy'n gwneud hynny erbyn hyn). Er hyn, nodir nad yw'n debygol y gwelir rhagor o staff yn y dyfodol.

#### 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn. Ceir asesiad naratif o berfformiad yr

awdurdod yn Adran 3. Cyfyngwyd ar yr asesiad i ryw raddau gan y ffaith y gofynnwyd i awdurdodau lleol wneud sylw ar unrhyw newidiadau i ddatganiad y flwyddyn flaenorol yn unig, ynghyd â sylwadau ychwanegol ar hawliau craidd a gyflawnwyd yn rhannol/na chawsant eu cyflawni.

## 2.1 Hawliau craidd

Mae Ceredigion yn cyflawni 10 o'r 12 hawl graidd yn llawn, ac yn methu â chyflawni dwy. Mae'r sefyllfa yr un fath ag yr oedd yn 2017/18 a 2018/19. Ni chynhaliwyd ymgyngħoriat ā defnyddwyr (HG 11) o dan y pumed fframwaith. Roedd cynlluniau i gynnal arolwg defnyddwyr ym misoedd Mawrth a Mai 2020. Cafodd y rhain eu canslo oherwydd Covid-19. O ganlyniad, ni lwyddwyd i ymgyngħori ā defnyddwyr yn y chweched fframwaith. Mae Ceredigion yn un o ddau awdurdod yn unig sydd wedi methu â chwblhau arolwg oedolion nac arolwg plant yn ystod y fframwaith, ac mae hyn yn siomedig gan fod ymgyngħori ā'r aelodau'n hanfodol fel sail i'r gwaith o bennu cyfeiriad y gwasanaeth yn y dyfodol. Mae HG 12 yn parhau heb ei chyflawni gan yw'r strategaeth llyfrgell wedi'i datblygu eto. Mae'r awdurdod yn nodi y bydd newid i System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru Gyfan yn 2020/21 yn effeithio ar y gwaith hwn, gan na fydd cymaint o staff ar gael i ddatblygu strategaeth llyfrgell.

## 2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) ac mae gan 10 ohonynt dargedau yn rhan ohonynt. Oherwydd effaith Covid-19, cafodd 3 dangosydd ansawdd eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, sef pump, chwech a phymtheg, ac o'r rhain, roedd rhif chwech yn cynnwys targed. O'r **naw** targed sydd ar ôl ar gyfer 2019/20, mae Ceredigion yn cyflawni 8 ohonynt yn llawn, ac 1 ohonynt yn rhannol.

# Tudalen 93

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol	Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	✓
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	✓
c) Cymorth e-lywodraeth	✓
d) Datblygu darllenwyr	✓
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles	Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgrpsiwn Llyfrau	✓
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	✓
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	✓
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	✓
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	✓
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	✓ Cyflawni'n llawn
DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol	Cyflawni'n llawn
Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	✓
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	x
DA 10 – Adnoddau Cymraeg	Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	✓
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	✓
DA 11 – Mynediad ar-lein:	Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhyngrwyd	✓
ii) Darpariaeth Wi-Fi	✓
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau	Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	✓
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	✓
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:	Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen y boblogaeth	x
ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth	✓
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeith y gwasanaeth	✓
DA 16 – Oriau agor fesul pen y boblogaeth	✓ Cyflawni'n llawn

Mae Ceredigion wedi cynnal ei berfformiad yn nhrydedd flwyddyn y chweched fframwaith, ac mae gwelliant bach yn y caffaeliadau. Mae Ceredigion yn un o bedwar awdurdod lleol yn unig i gyflawni 8 DA yn llawn ac 1 yn rhannol.

## 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio llyfrgelloedd yn ei chael ar fywydau pobl. Nid yw'r dangosyddion hyn yn cynnwys targedau, a dim ond unwaith dros gyfnod tair blynedd y fframwaith y mae'n ofynnol i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Er hyn, mae Covid-19 wedi effeithio ar y mesur hwn a chafodd rhai o gynlluniau'r awdurdod i gynnal arolwg yn chwarter cyntaf 2020 eu canslo. Felly, mae'r ffigurau cryno (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny a nododd eu bod wedi cwblhau eu harolwg defnyddwyr yn ystod fframwaith 6. Mae'r drefn yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, gydag 1 yn nodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf.

Ni chynhaliodd Ceredigion arolwg oedolion nac arolwg plant yn y pumed a'r chweched fframwaith, ac mae'n un o ddau awdurdod sydd heb wneud hynny. Nodir bod Covid-19 wedi effeithio ar y cynlluniau eleni. Mae'n bwysig bod cyfeiriad y Gwasanaeth yn seiliedig ar adborth gan ddefnyddwyr.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth				
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	dd/b	60%	90%	97%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	dd/b	11%	81%	99%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Ceredigion ddwy astudiaeth achos o'r fath, ond nid oeddent mor gryf â rhai o'r engrheifftiau a roddwyd gan awdurdodau eraill:

- Adeiladu cymunedau cynaliadwy – Y cysyniad o lyfrgelloedd fel canolfannau ailgylchu. Mae un aelod yn disgrifio ei ddiddordeb newydd yn y Llyfrgell a phwysigrwydd y Llyfrgell o safbwyt ffordd gynaliadwy o fyw, gan fod llyfrgelloedd yn rhannu adnoddau yn y gymuned.
- Mynd i'r afael ag ynysigrwydd – Rôl y Llyfrgell yn cefnogi un aelod o'r gymuned i gymryd rhan mewn clwb darllen, a gynhelir gan y Llyfrgell, a thrwy hynny'n lleihau ynysigrwydd. Mae'r llyfrgell yn darparu lle diogel i bobl gyfarfod, a gwneud ffrindiau newydd.

## 2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd

Er bod cyfyngiadau Covid-19 yn parhau i achosi her i bob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru, mae gwytnwch staff, eu proffesiynoldeb a'u gofal dros y gymuned y maent yn ei gwasanaethu wedi bod yn eithriadol. Er bod gwasanaethau digidol wedi cynyddu, gwyddom o dystiolaeth a ddarparwyd fod cwsmeriaid yn colli eu gwasanaethau llyfrgell. Maent yn colli'r staff, pori drwy'r silfleoedd, y ddarpariaeth TG, y manau cymunedol a'r grwpiau, fel y grwpiau gwau a chlonc. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y llyfrgell fel lle i fynd iddo, ac effaith rhngweithio â staff llyfrgell ar lesiant y cwsmeriaid.

Nid oes gan y dangosyddion sy'n weddill dargedau, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros gyfnod, gan gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Ceredigion ar gyfer 2019/20. Nodir safle allan o 22, gydag

1 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf a 22 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Nid oedd data perthnasol ar gael i rai awdurdodau, fel y gwelir yn y dangosyddion lle y darparodd llai na 22 o awdurdodau ddata. Nodwyd ffigurau o ail flwyddyn y chweched fframwaith neu o arolygon blaenorol perthnasol hefyd er mwyn gallu cymharu. Caiff dangosyddion 'fesul pen' o'r boblogaeth eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir yn wahanol.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2018/19
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth					[Fframwaith 6] dd/b
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	dd/b	25%	75%	94%	
c) iechyd a lles	dd/b	38%	69%	96%	dd/b
d) lle diogel a chroesawgar	dd/b	90%	96%	100%	dd/b
DA 2 – Bodlonrwydd cwsmeriaid					[Fframwaith 6]
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	dd/b	78%	91%	99%	dd/b
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	dd/b	88%	97%	100%	dd/b
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	dd/b	65%	85%	99%	dd/b
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	dd/b	85%	96%	100%	dd/b
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	dd/b	8.0	9.1	9.5	dd/b
DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell <sup>1</sup>					
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	4,012*	10/22	2429	3987	6874
b) rhith-ymweliadau fesul pen	1,183	20/22	239	909	2131
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	157	14/22	78	145	244
DA 10 – Benthyciadau Cymraeg fesul pen <sup>2</sup>	1,134	2/22	311	680	1468
DA 11 – Mynediad ar-lein					
b) cyfrifiaduron fesul 10,000	7	18/22	4	9	14
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	28%	11/22	14%	30%	64%
DA 14 – Gwariant gweithredol					
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£9,525	16/22	£7,260	£12,448	£23,333
b) % ar staff	76%	=1/22	48%	61%	76%
% ar adnoddau gwybodaeth	19%	=3/22	5%	13%	22%
% ar offer ac adeiladau	0%	19/22	0%	8%	28%
% ar gostau gweithredol eraill	5%	20/22	1%	18%	35%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£0	=22/22	£0	£1,567	£13,027
DA 16 – Oriau agor <sup>3</sup>					
(iii) a) % oriau cau mannau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	=1/22	0.00%	0.23%	3.96%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	1.87%	18/22	0.00%	1.07%	5.41%
					0.00% 7.99%

<sup>1</sup> rhoddir seren wrth ymwl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân; <sup>2</sup> fesul 1,000 y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; <sup>3</sup> Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

## 3 Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn, ac yn cymharu'r

performiad hwn â blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y chweched fframwaith (2017/18 a 2018/19).

## 3.1 Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)<sup>i</sup>

Fel y nodwyd yn gynharach, ni cynhaliodd Ceredigion arolwg oedolion nac arolwg plant yn ystod y fframwaith cyfredol. Nodir bod yr arolygon defnyddwyr a oedd wedi'u cynllunio wedi'u canslo oherwydd Covid-19. Mae pob llyfrgell sefydlog sydd ar agor am fwy na 10 awr yn parhau i ddarparu ystod lawn o gefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol, a chefnogaeth dda ar gyfer iechyd a llesiant. Gwelwyd cynnydd yn nifer y clybiau llyfrau.

## 3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)<sup>ii</sup>

Mae cau pob llyfrgell ar 20 Mawrth 2020 oherwydd Covid-19 hefyd wedi effeithio ar y defnydd o lyfrgelloedd. Mae Ceredigion wedi parhau i gyflawni'r targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, ac mae wedi aros yn gyson ers blwyddyn gyntaf y fframwaith. Er bod nifer yr ymweliadau â safleoedd llyfrgell wedi gostwng ychydig, mae Ceredigion yn parhau yn uwch na'r canolrif yng Nghymru yn y maes hwn. Gwelwyd gostyngiad hefyd yn nifer y benthycwyr gweithredol, ac mae nifer yr aelodau fesul pen o'r boblogaeth yn parhau'n is na'r canolrif yng Nghymru. Mae cyfanswm yr ymweliadau allanol â gwefan y llyfrgell wedi gweld cynnydd sylweddol er 2017/18, â nifer yr ymweliadau'n treblu bron yn ystod y cyfnod hwn. Mae nifer y llyfrau plant a fenthycwyd hefyd wedi cynyddu 25% ers blwyddyn adrodd gyntaf y fframwaith. Er bod gostyngiad bach yn nifer y llyfrau oedolion a fenthycwyd, dim ond un awdurdod arall yng Nghymru sydd â mwy o fenthyciadau fesul pen o'r boblogaeth unwaith eto. Gwelwyd cynnydd sylweddol o 230% mewn lawrlwythiadau electronig, ac erbyn hyn mae Ceredigion yn y chwartel uchaf yng Nghymru.

## 3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)<sup>iii</sup>

Cyflawnir un elfen o'r targed caffael (DA 9) (nifer yr eitemau sy'n cael eu caffael fesul pen o'r boblogaeth), ac mae hyn yn welliant ers ail flwyddyn y fframwaith. Mae Ceredigion yn un o bum awdurdod sydd wedi cyflawni'r targed caffael (DA 9) yn 2019/20. Mae'r eitemau sydd wedi'u caffael wedi cynyddu 56% er 2017/18, er bod y gwasanaeth yn nodi bod hyn o ganlyniad i nifer yr e-adnoddau sydd wedi'u caffael. Mae'r gwasanaeth yn parhau'n ddibynnol ar roddion (er nad yw'r rhain wedi'u cynnwys yn adroddiadau Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru). Mae nifer y benthyciadau Cymraeg wedi parhau i gynyddu, ac mae'r gwasanaeth wedi cofnodi'r lefel uchaf ond un o fenthyciadau Cymraeg fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Mae'n parhau i gyflawni'r targed ar gyfer gwariant ar eitemau Cymraeg. Mae'r ddarpariaeth cyfrifiaduron personol wedi'i chynnal ar lefelau 2017/18 a 2018/19. Mae'r defnydd o gyfrifiaduron personol wedi cynyddu ychydig ond mae'n parhau'n is na'r canolrif yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth yn parhau i gyflawni'r targedau ar gyfer cyflenwi ceisiadau, er nad yw'n rhan o gynllun benthyciadau rhwng llyfrgelloedd rhanbarthol. Mae nifer yr eitemau sy'n cael eu danfon gan y gwasanaeth wedi cynyddu yn y maes hwn, gan arwain at gynydd cadarnhaol iawn yn y maes.

## 3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)<sup>iv</sup>

Mae lefelau staffio wedi'u cynnal ar y lefelau blaenorol, ac mae Ceredigion yn parhau i gyflawni'r gofynion o ran staff cymwysedig (un o bedwar awdurdod yn unig sy'n gwneud

hynny erbyn hyn). Nid yw cyfanswm y staff yn cyflawni'r targed, a nodir nad yw staff ychwanegol yn debygol yn y dyfodol. Mae arweinyddiaeth gymwysedig ar waith o hyd. Mae cyfanswm gwariant refeniwr' gwasanaeth wedi gostwng ychydig yn 2019/20, ac mae wedi gostwng 7% er 2017/18. Mae gwariant yn is na'r canolrif yng Nghymru, ac mae Ceredigion yn y chwarterl isaf yng Nghymru yn y maes hwn. Mae oriau agor blynnyddol cyfanredol wedi'u cynnal ar lefelau 2017/18 a 2018/19, ac mae'r perfformiad yma yn parhau ymhliith yr uchaf yng Nghymru.

## 4 Cyd-destun strategol

Fel rhan o'r datganiad gofynnwyd i awdurdodau ddweud sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru a'i nodau strategol. Dywedodd Ceredigion fod y gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu tuag at nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mewn nifer o ffyrdd. Mae'r enghreifftiau a roddwyd yn cynnwys cyfraniad y gwasanaeth at Gymru fwy ffyniannus drwy'r ddarpariaeth dysgu gydol oes; at Gymru fwy cydnerth drwy ddarparu gwasanaethau'r Cyngor; at Gymru iachach drwy gefnogi unigolion sydd â dementia ac at Gymru fwy cyfartal drwy leihau anghydraddoldeb digidol a'i ddarpariaeth TG. Mae'r gwasanaeth yn parhau i nodi ymrwymiad cryf i ddarpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.

## 5 Cyfeiriad i'r dyfodol

Mae'r gwasanaeth yn nodi bod cyfeiriad yr awdurdod ar gyfer y dyfodol a'i gynlluniau'n ansicr o ganlyniad i effeithiau Covid-19. Nododd Ceredigion yn 2017/18 ei fod yn cynnal adolygiad llawn o strategaethau a pholisiau. Yn anffodus, mae Covid-19 wedi effeithio ar hyn yn 2019/20. Daeth cynlluniau i ymuno â System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru Gyfan i stop yn ystod haf 2020 oherwydd Covid-19, a'r gobaith oedd y byddai modd cyflawni hyn ym mis Rhagfyr 2020. Nid yw cyfeiriad y gwasanaeth ar gyfer y dyfodol yn glir o'r naratif, ond nodwyd bod pwysau ariannol yn debygol o effeithio ar adnoddau electronig o ystyried y gostyngiad yn y cyfraddau defnyddio. Nodir bod yr ystâd wedi'i moderneiddio'n llwyr, ac y bydd pwyslais ar sicrhau bod y llyfrgelloedd yn parhau'n adeiladau diogel, atyniadol a hygyrch i bawb.

## 6 Casgliad

Mae Ceredigion wedi parhau i berfformio'n dda mewn rhai meysydd yn 2019/20, gyda datblygiadau cadarnhaol o ran adnoddau electronig yn arbennig. Mae Ceredigion yn parhau yn y chwarterl uchaf yng Nghymru o ran nifer y llyfrau sy'n cael eu benthyg gan oedolion a phlant, er bod cyfanswm y gwariant refeniwr yn parhau'n is na'r canolrif yng Nghymru. Mae Ceredigion hefyd wedi cynnal ei safle yng Nghymru o ran darparu deunyddiau Cymraeg a benthyciadau Cymraeg. Mae'r gwasanaeth yn un o bedwar gwasanaeth yn unig a fodlonodd y targed caffaol. Bu datblygiadau cadarnhaol mewn nifer o feysydd a gwelliant yn Nangosydd Ansawdd 9 yn 2019/20. Fel y nodwyd yn ail flwyddyn y fframwaith, mae'r ffaith nad yw arolygon defnyddwyr ffurfiol wedi cael eu cynnal bellach ers o leiaf chwe blynedd a'r ffaith nad oes strategaeth o hyd yn destun siom.

<sup>i</sup> Oherwydd Covid-19, dim ond nodi unrhyw newid yn eu darpariaeth ers y flwyddyn adrodd ddiwethaf y gofynnwyd i awdurdodau lleol ei wneud ar gyfer DA 3 a 4.

<sup>ii</sup> Oherwydd Covid-19, cafodd DA 5 a 6 eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20.

<sup>iii</sup> Cafodd e-adnoddau a brynydd drwy danygrifiadau a ariennir yn ganolog eu cynnwys yn y ffigurau caffaeliadau ar gyfer DA 9 yn 2019/20. Mae pob awdurdod wedi ychwanegu 201 at gyfanswm ei gaffaeliadau o danygrifiadau a ariennir yn ganolog. Mae Datganiadau Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gaffaelir yn ganolog.

---

<sup>iv</sup> Oherwydd Covid-19, cafodd DA 15 ei ddileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, ynghyd â hyfforddiant ac oriau gwirfoddoli.



Eifion Evans  
Prif Weithredwr  
Cyngor Sir Ceredigion  
[Eifion.Evans@ceredigion.gov.uk](mailto:Eifion.Evans@ceredigion.gov.uk)

Chweffor 2021

Annwyl Eifion

### **Chweched Fframwaith Asesu Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru: Datganiad Blynnyddol 2019/20**

Mae Deddf Llyfrgelloedd ac Amgueddfeydd Cyhoeddus 1964 yn nodi dyletswyddau statudol awdurdodau llyfrgelloedd cyhoeddus i ddarparu gwasanaethau llyfrgell cynhwysfawr ac effeithlon. Mae hefyd yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i arolygu a hyrwyddo gwelliannau i wasanaethau llyfrgelloedd cyhoeddus yng Nghymru. Yn unol â'r gofynion statudol hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni asesiad o Ddatganiad Blynnyddol gwasanaeth llyfrgell eich awdurdod ar gyfer 2019/20 ac mae'r adroddiad llawn ynghlwm wrth y llythyr hwn.

Hon yw'r trydedd flwyddyn o asesiadau dan y chweched fframwaith. Canfu'r dilyswr allanol, mewn ymgynghoriad â Grŵp Cyfeirio yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru a thri phennaeth gwasanaethau llyfrgell fod:

- Bodlonodd Ceredigion 10 o'r 12 hawl graidd yn llawn a methodd â bodloni 2.
- O'r 9 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Ceredigion 8 yn llawn ac 1 yn rhannol.
- Mae Ceredigion wedi parhau i berfformio'n dda mewn rhai meysydd yn 2019/20, gyda datblygiadau cadarnhaol o ran adnoddau electronig yn arbennig. Mae Ceredigion yn parhau i fod yn y chwartel uchaf yng Nghymru o ran nifer y llyfrau sy'n cael eu benthyg gan oedolion a phlant, er bod cyfanswm y gwariant refeniu yn parhau i fod yn is na'r canolrif yng Nghymru. Mae Ceredigion hefyd wedi cynnal ei safle yng Nghymru o ran darparu deunyddiau Cymraeg a materion Cymreig. Mae'r gwasanaeth yn un o bedwar gwasanaeth yn unig a fodlonodd y targed caffael. Bu datblygiadau cadarnhaol mewn nifer o feysydd a gwelliant yn Nangosydd Ansawdd 9 yn 2019/20. Fel y nodwyd yn ail flwyddyn y fframwaith, mae'r ffaith nad yw arolygon defnyddwyr ffurfiol wedi cael eu cynnal bellach ers o leiaf chwe blynedd a'r ffaith nad oes strategaeth o hyd yn destun siom.

# Tudalen 100

Rwy'n ddiolchgar i'ch gwasanaeth llyfrgell am gyflwyno'r datganiad eleni ac am gydweithio â'r asesydd annibynnol a swyddogion Llywodraeth Cymru ar y gwaith pwysig hwn.

Mae'r llythyr hwn hefyd i'ch hysbysu yn dilyn trafodaethau â Chymdeithas Prif Lyfrgellwyr Cymru, rwy'n cynnig ymestyn y Fframwaith Safonau cyfredol Llyfrgelloedd *Cysylltiedig ac Uchelgeisiol; chweched fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru* 2017-20 am flwyddyn arall, gyda'r flwyddyn adrodd olaf yn 2021/22. Rwy'n fodlon bod y Fframwaith yn parhau i fod yn addas at y diben ac o ran cynllunio a chyflenwi gwasanaeth, y byddai'r gwasanaethau llyfrgell yn elwa ar y parhad hwn yn y Safonau. Mewn cydweithrediad â Chymdeithas y Prif Lyfrgellwyr, bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu seithfed fframwaith ansawdd Safonau Llyfrgell Gyhoeddus Cymru 2022 - 2025.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr adroddiad neu'r broses asesu, cysylltwch â Hywel Owen, drwy anfon e-bost at: [hywel.owen@llyw.cymru](mailto:hywel.owen@llyw.cymru)

Yn gywir



Steffan Roberts  
Dirprwy Gyfarwyddwr, Diwylliant a Chwaraeon

Diwylliant a Chwaraeon, Llywodraeth Cymru  
Culture and Sport, Welsh Government

Rhodfa Padarn, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UR.  
Ffôn /Tel: 0300 062 2112

E-bost / E-mail: [DiwylliantAChwaraeon@llyw.cymru](mailto:DiwylliantAChwaraeon@llyw.cymru) / [CultureAndSport@gov.wales](mailto:CultureAndSport@gov.wales)  
Website: <http://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/>

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn yr un iaith, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.





Eifion Evans  
Chief Executive  
Ceredigion County Council  
[Eifion.Evans@ceredigion.gov.uk](mailto:Eifion.Evans@ceredigion.gov.uk)

12 February 2021

Dear Eifion

**Sixth Assessment Framework for Welsh Public Library Standards:  
Annual Return 2019/20**

The Public Libraries and Museums Act 1964 sets out the statutory duties of public library authorities to "*provide a comprehensive and efficient library service*" and makes it a duty of the Welsh Ministers "*to superintend and promote the improvement*" of public library services in Wales. In accordance with these statutory requirements the Welsh Government has completed its assessment of your authority's library service Annual Return for 2019/20, and the full report is attached to this letter.

This is the third year of assessment under the sixth framework. The external validator, in consultation with a Reference Group comprising Welsh Government officials and three heads of library services, found that:

- Ceredigion met 10 of the 12 core entitlements in full and failed to meet 2.
- Of the 9 quality indicators which have targets, Ceredigion achieved 8 in full, and 1 in part.
- Ceredigion has continued to perform well in some areas in 2019/20, with positive developments in terms of electronic resources in particular. Ceredigion remains in the top quartile in Wales with regard to adult and children's book issues, despite the fact that total revenue expenditure remains below the median in Wales. Ceredigion has also maintained its position in Wales with regard to the provision of Welsh language materials and Welsh issues. The service is one of only four services to meet the acquisitions target. There have been positive developments in a number of areas and an improvement in QI 9 in 2019/20. As noted in the second year of the framework, formal user surveys have now not been undertaken for at least six years and the continued lack of a Strategy is disappointing.

I am grateful for the support from your library service in submitting this year's return and liaising with officials on this important piece of work.

# Tudalen 102

This letter is also to inform you that following discussions with the Society of Chief Librarians Wales, I am proposing to extend the current Framework of Standards *Connected and Ambitious Libraries: the sixth quality framework of Welsh Public Library Standards 2017-20* for a further year with the last year of reporting being 2021/22. I am content that the Framework remains fit for purpose and, in terms of term of planning and service delivery, library services would benefit from this continuity in the Standards. In liaison with the Society of Chief Librarians, Welsh Government will be developing a seventh quality framework of Welsh Public Library Standards 2022 – 2025.

Should you have any queries concerning the report or the assessment process, please contact Hywel Owen, email: [hywel.owen@gov.wales](mailto:hywel.owen@gov.wales)

Yours sincerely



Steffan Roberts  
Deputy Director – Culture and Sport Division

Diwylliant a Chwaraeon, Llywodraeth Cymru  
Culture and Sport, Welsh Government

Rhodfa Padarn, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UR.  
Ffôn /Tel: 0300 062 2112

E-bost / E-mail: [DiwylliantAChwaraeon@llyw.cymru](mailto:DiwylliantAChwaraeon@llyw.cymru) / [CultureAndSport@gov.wales](mailto:CultureAndSport@gov.wales)  
Website: <http://gov.wales/topics/culture-tourism-sport/>

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn yr un iaith, ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome correspondence in Welsh. Correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.



## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

**ADRODDIAD I'R :** Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol

**DYDDIAD:** 14 Hydref 2021

**LLEOLIAD:** O bell drwy gynhadledd fideo

**TEITL:** Adroddiad ar Ystadegau 2020 Uwch Grwner Ceredigion.

**PWRPAS YR ADRODDIAD** Er gwybodaeth a phenderfyniad - darparu cyfle i'r Pwyllgor adolygu'r wybodaeth a nodwyd yn Adroddiad ar Ystadegau Uwch Grwner 2020.

**RHESWM PAHAM Y BU I  
GRAFFU OFYN AM Y  
WYBODAETH**

Ni ofynnwyd amdano.

### **CEFNDIR:**

Caiff adroddiad ar farwolaethau a adroddwyd i Grwner Ceredigion ei baratoi'n flynyddol gan yr Uwch Grwner ('Adroddiad Ystadegau) a'i anfon at Y Weinyddiaeth Gyflawnder er mwyn ei gyhoeddi fel rhan o Ystadegau'r Crwner ar wefan Llywodraeth y DU (mae ystadegau 2020 ar gael ar <https://www.gov.uk/government/statistics/coroners-statistics-2020>

Mae Adroddiad y Prif Grwner i'r Arglwydd Ganghellor (Adroddiad sy'n cynnwys y Chweched Adroddiad Blynnyddol 2018-2019 a'r Seithfed Adroddiad Blynnyddol 2019-2020 ) ar gael ar: [https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/932518/chief-coroner\\_s-annual-report-1920.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/932518/chief-coroner_s-annual-report-1920.pdf) ac y mae'n cynnwys Glasprint Model y Crwner . Mae'n argymhell y dylai'r Uwch Grwner gyflwyno hefyd adroddiad blynnyddol byr i'r Prif Grwner a'r Cyngor bob mis Gorffennaf a dylid ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor gan hefyd gynnwys yr ystadegau perthnasol ar yr achosion cyfredol/ sydd wedi cau (gyda ffigyrâu i gymharu â blynnyddoedd blaenorol) , diweddarriad ar waith y Crwner a materion perthnasol, crynodeb am dîm y Crwner a threfniadau staffio ac unrhyw gynlluniau i'r dyfodol. Nid oes Adroddiad o'r fath wedi ei ddarparu i'r Cyngor.

### **Y SEFYLLFA GYFREDOL:**

Mae'r Adroddiad ar Ystadegau yn cynnwys gwybodaeth berthnasol parthed gwasanaethau Crwner Ceredigion er mwyn sicrhau tryloywder i'r cyhoedd. Gan fod yr Ystadegau Gwladol bellach wedi eu cyhoeddi caiff yr Adroddiad ar Ystadegau ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Adnoddau Corfforaethol ("Y Pwyllgor") (gweler **Atodiad 1**)

Argymhellir, ar ôl i'r Pwyllgor ystyried yr Adroddiad ar Ystadegau y dylai gael ei gyhoeddi'n flynyddol ar dudalen Gwasanaethau'r Crwner ar wefan y Cyngor <https://www.ceredigion.gov.uk/resident/coroner-services/> (gan fod yn ofalus i beidio â chyhoeddi'r Adroddiad cyn i'r Ystadegau Cenedlaethol gael eu cyhoeddi gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder). Bu i Uwch Grwner Ceredigion a Gwasanaethau Dadansoddi Ystadegau Cyfiawnder / Cyfiawnder Sifil a Gweinyddol gael eu hysbysu o'r cynnig yma.

Estynnwyd gwahoddiad i Uwch Grwner Ceredigion i gyflwyno Adroddiad i'r Cyngor a/neu ddarparu sylwadau/ testun ychwanegol ac y mae wedi cadarnhau yn sgil y llwyth gwaith cyfredol, y gallu i eistedd mewn llys a swyddi gwag o ran staff (sydd bellach wedi ei lanw) nid yw'n medru paratoi yr adroddiad blynnyddol eleni. Gobeithit y bydd y Crwner yn medru darparu adroddiad y flwyddyn nesaf.

Dechreuodd y Swyddog Crwner yn ei swydd ar 12fed o Orffennaf.

Dylai'r Pwyllgor hefyd nodi fod gwybodaeth bersonol sensitif wedi ei dynnu allan o'r Adroddiad Ystadegol.

## Oes Asesiad Effaith Integredig

wedi ei gwblhau? Na

## Os nad oes, esboniwrch pam

**Crynodeb:** *Nid yw'r adroddiad yma'n achosi unrhyw newid i bolisi na strategaeth.*

**Hirdymor:** Mae'r Adroddiad ar Ystadegau yn darparu gwybodaeth sy'n ymwneud ag amser penodol (2020) gan fod yn berthnasol i dueddiadau sy'n ymwneud â phoblogaeth Ceredigion.

## LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

**Integreiddio:** Amherthnasol

**Cydweithio:** Gwybodaeth a ddarparwyd gan Uwch Grwner Ceredigion.

**Cynnwys:** Amherthnasol

**Atal:** Gwybodaeth ar yr Adroddiad Ystadegau o ran pwysigrwydd Nodau Llesiant e.e. Cymru lachach

## ARGYMHELLIAD

Gofynnir i'r Pwyllgor:

1. Nodi cynnwys Adroddiad Ystadegol 2020 Uwch Grwner Ceredigion; a
2. Chymeradwyo cyhoeddiad blynnyddol (golygiad) o ran Adroddiad ar Ystadegau Uwch Grwner Ceredigion ar wefan y Cyngor (ar dudalen Gwasanaethau'r Crwner)

## RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:

Monitro'r wybodaeth flynyddol sy'n ymwneud â marwolaethau a adroddiad i Uwch Grwner Ceredigion.

**Enw Cyswllt:**

Elin Prysor

<b>Swydd:</b>	Swyddog Monitro a Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Corfforaethol a Llywodraethu
<b>Dyddiad yr Adroddiad:</b>	7 Medi 2021
<b>Acronymau:</b>	Amherthnasol
<b>Atodiadau:</b>	<b>Atodiad 1</b> - Adroddiad ar Ystadegau 2020 Uwch Grwner Ceredigion.

## DEATHS REPORTED TO CORONERS

JANUARY - DECEMBER 2020

**PLEASE READ THE NOTES CAREFULLY BEFORE COMPLETING**

Please complete and return this spreadsheet by 1 March 2021 to:

Matteo Chiesa  
[Coroners\\_Returns@justice.gov.uk](mailto:Coroners_Returns@justice.gov.uk)

If you have any problems about how this spreadsheet should be completed, please refer to the "Instructions" worksheet, or contact Matteo Chiesa at  
[Coroners\\_Returns@justice.gov.uk](mailto:Coroners_Returns@justice.gov.uk)  
or alternatively contact 07967 595014

**PLEASE ENTER DETAILS HERE AFTER COMPLETION**

NAME: <input type="text" value="P L Brunton"/>	ADDRESS: <input type="text" value="6 Upper Portland Street"/> <input type="text" value="Aberystwyth"/> <input type="text" value="Ceredigion"/> <input type="text" value="SY23 2DU"/>
DATE: <input type="text" value="25th January 2021"/>	E-MAIL ADDRESS: <input type="text" value="peter.brunton@beuntonandco.co.uk"/>
TELEPHONE: <input type="text" value="01970 612587"/>	
SOFTWARE PROVIDER (Please select from dropdown options) <input type="button" value="▼"/>	FURTHER DETAILS - OTHER PROVIDER: <input type="text" value="Please select software provider from the drop-down list"/> <input type="text" value="No software provider"/>

Please return the completed spreadsheet by 1 March 2021 to:

Matteo Chiesa  
[Coroners\\_Returns@justice.gov.uk](mailto:Coroners_Returns@justice.gov.uk)

Thank you

	A	B	C	D	E	F	G	H	I	J	K	L	M	N	O	P	Q	R																																																																														
1	<b>DEATHS REPORTED TO CORONERS</b> <b>January to December 2020</b>																																																																																															
2	FULL NAME OF CORONER'S AREA: <b>CEREDIGION</b>																																																																																															
3	<b>PLEASE READ THE NOTES CAREFULLY BEFORE COMPLETING AND READ THE CHECKS SUMMARY BEFORE SUBMITTING</b>																																																																																															
4	<b>Section A: new casework</b>																																																																																															
5	<b>SECTION A: DEATHS REPORTED TO CORONER IN 2020</b>																																																																																															
6	<table border="1" style="width: 100%; border-collapse: collapse;"> <thead> <tr> <th rowspan="2"></th><th colspan="3">With post mortem</th><th colspan="3">Without post mortem</th><th colspan="3">TOTAL</th></tr> <tr> <th>Male</th><th>Female</th><th>Total</th><th>Male</th><th>Female</th><th>Total</th><th>Male</th><th>Female</th><th>Total</th></tr> </thead> <tbody> <tr> <td>(i) Deaths reported to the coroner which will not result in an inquest (whether or not a certificate of any sort is issued)</td><td>92</td><td>49</td><td>141</td><td>83</td><td>87</td><td>170</td><td>175</td><td>136</td><td>311</td></tr> <tr> <td>(ii) Deaths reported to coroners on which inquests are to be or were opened (even if not concluded)</td><td>25</td><td>7</td><td>32</td><td>0</td><td>0</td><td>0</td><td>25</td><td>7</td><td>32</td></tr> <tr> <td>(iii) Deaths reported to coroners which are under investigation and it is not yet known if an inquest will be opened</td><td>4</td><td>4</td><td>8</td><td>0</td><td>0</td><td>0</td><td>4</td><td>4</td><td>8</td></tr> <tr> <td>TOTAL (i) + (ii) + (iii)</td><td>121</td><td>60</td><td>181</td><td>83</td><td>87</td><td>170</td><td>204</td><td>147</td><td>351</td></tr> <tr> <td>(iv) Number of cases transferred out of area under Sections 2 or 3 of the Coroners and Justice Act 2009 (not to be included above, even if they included a post mortem before transfer)</td><td colspan="3"></td><td colspan="3"></td><td colspan="3">1</td></tr> <tr> <td>(v) Deaths reported or referred to the coroner requiring neither inquest nor the issue of any certificate MUST BE INCLUDED IN THE "NO INQUEST NO POST MORTEM" box above, along with cases where certificates were issued. For cases where sex of deceased not known, please indicate the number of such cases in the yellow cell on the right.</td><td colspan="3"></td><td colspan="3"></td><td colspan="3">0</td></tr> </tbody> </table>																		With post mortem			Without post mortem			TOTAL			Male	Female	Total	Male	Female	Total	Male	Female	Total	(i) Deaths reported to the coroner which will not result in an inquest (whether or not a certificate of any sort is issued)	92	49	141	83	87	170	175	136	311	(ii) Deaths reported to coroners on which inquests are to be or were opened (even if not concluded)	25	7	32	0	0	0	25	7	32	(iii) Deaths reported to coroners which are under investigation and it is not yet known if an inquest will be opened	4	4	8	0	0	0	4	4	8	TOTAL (i) + (ii) + (iii)	121	60	181	83	87	170	204	147	351	(iv) Number of cases transferred out of area under Sections 2 or 3 of the Coroners and Justice Act 2009 (not to be included above, even if they included a post mortem before transfer)							1			(v) Deaths reported or referred to the coroner requiring neither inquest nor the issue of any certificate MUST BE INCLUDED IN THE "NO INQUEST NO POST MORTEM" box above, along with cases where certificates were issued. For cases where sex of deceased not known, please indicate the number of such cases in the yellow cell on the right.							0		
	With post mortem			Without post mortem			TOTAL																																																																																									
	Male	Female	Total	Male	Female	Total	Male	Female	Total																																																																																							
(i) Deaths reported to the coroner which will not result in an inquest (whether or not a certificate of any sort is issued)	92	49	141	83	87	170	175	136	311																																																																																							
(ii) Deaths reported to coroners on which inquests are to be or were opened (even if not concluded)	25	7	32	0	0	0	25	7	32																																																																																							
(iii) Deaths reported to coroners which are under investigation and it is not yet known if an inquest will be opened	4	4	8	0	0	0	4	4	8																																																																																							
TOTAL (i) + (ii) + (iii)	121	60	181	83	87	170	204	147	351																																																																																							
(iv) Number of cases transferred out of area under Sections 2 or 3 of the Coroners and Justice Act 2009 (not to be included above, even if they included a post mortem before transfer)							1																																																																																									
(v) Deaths reported or referred to the coroner requiring neither inquest nor the issue of any certificate MUST BE INCLUDED IN THE "NO INQUEST NO POST MORTEM" box above, along with cases where certificates were issued. For cases where sex of deceased not known, please indicate the number of such cases in the yellow cell on the right.							0																																																																																									
7	<b>POST-MORTEM EXAMINATIONS - NOT to include cases that were later transferred out (if more than one on the same body, only details relating to the FIRST PM should be included in this section.)</b>																																																																																															
8	<table border="1" style="width: 100%; border-collapse: collapse;"> <tbody> <tr> <td>Number ordered at STANDARD RATE</td><td style="text-align: right;">165</td></tr> <tr> <td>Number ordered at NON-STANDARD RATE</td><td style="text-align: right;">16</td></tr> <tr> <td>Number of PMs which included HISTOLOGY</td><td style="text-align: right;">21</td></tr> <tr> <td>Number of PMs which included TOXICOLOGY</td><td style="text-align: right;">31</td></tr> <tr> <td>Number of PMs conducted using External Examination, Imaging, Test on Samples - (Toxicology/Histology if not part of an Autopsy)</td><td style="text-align: right;">5</td></tr> <tr> <td>Number of PMs conducted not including an Autopsy</td><td style="text-align: right;">0</td></tr> <tr> <td>Number of PMs conducted by a HO forensic pathologist</td><td style="text-align: right;">3</td></tr> <tr> <td>Number of second PMs conducted following request by defence lawyer</td><td style="text-align: right;">0</td></tr> <tr> <td>N.B. we do not require any further details of any second or subsequent PM ordered on the same body to be recorded here</td><td colspan="15"></td></tr> </tbody> </table>																	Number ordered at STANDARD RATE	165	Number ordered at NON-STANDARD RATE	16	Number of PMs which included HISTOLOGY	21	Number of PMs which included TOXICOLOGY	31	Number of PMs conducted using External Examination, Imaging, Test on Samples - (Toxicology/Histology if not part of an Autopsy)	5	Number of PMs conducted not including an Autopsy	0	Number of PMs conducted by a HO forensic pathologist	3	Number of second PMs conducted following request by defence lawyer	0	N.B. we do not require any further details of any second or subsequent PM ordered on the same body to be recorded here																																																														
Number ordered at STANDARD RATE	165																																																																																															
Number ordered at NON-STANDARD RATE	16																																																																																															
Number of PMs which included HISTOLOGY	21																																																																																															
Number of PMs which included TOXICOLOGY	31																																																																																															
Number of PMs conducted using External Examination, Imaging, Test on Samples - (Toxicology/Histology if not part of an Autopsy)	5																																																																																															
Number of PMs conducted not including an Autopsy	0																																																																																															
Number of PMs conducted by a HO forensic pathologist	3																																																																																															
Number of second PMs conducted following request by defence lawyer	0																																																																																															
N.B. we do not require any further details of any second or subsequent PM ordered on the same body to be recorded here																																																																																																
9	<table border="1" style="width: 100%; border-collapse: collapse;"> <tbody> <tr> <td>Number of Out of Eng and orders made</td><td style="text-align: right;">1</td> <td>Number of deaths abroad (give details on separate page please)</td><td style="text-align: right;">0</td> </tr> </tbody> </table>																	Number of Out of Eng and orders made	1	Number of deaths abroad (give details on separate page please)	0																																																																											
Number of Out of Eng and orders made	1	Number of deaths abroad (give details on separate page please)	0																																																																																													
